Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 **1 - 83**

Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Adroddiad yr Aelod Cabinet dros Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau**

**Cabinet – 20 Ionawr 2022**

# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032

| | |
|---|---|
| **Pwrpas:** | Y Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 terfynol.<br><br>Y Cabinet yn rhoi caniatâd i gyflwyno'r CSCA 2022-2032 statudol terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. |
| **Fframwaith Polisi:** | Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |
| **Ymgynghoriad:** | Mynediad i Wasanaethau<br>Cyllid<br>Cyfreithiol<br>Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PAGA) |
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | Argymhellir: |

1) Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol 2022-2032.
2) Bod y Cabinet yn caniatáu cyflwyno’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol 2022-2032 i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

| | |
|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:** | Rhodri Jones |
| **Swyddog Cyllid:** | Ben Smith |
| **Swyddog Cyfreithiol:** | Tracey Meredith |
| **Swyddog Mynediad i Wasanaeth:** | Rhian Millar |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Rhaid i Gyngor Abertawe gyflwyno'r Cynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022 fan bellaf.

1.2 Rhaid i'r CSCA gynnwys cynigion yr awdurdod lleol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wella cynllunio darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg, ein targedau ar gyfer gwella cynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu'r Gymraeg.

1.3 Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, ymgynghorwyd â'r CSCA drafft rhwng dydd Llun 27 Medi 2021 a dydd Llun 22 Tachwedd 2021.

## 2. Gofynion Statudol

2.1 Yn ogystal â'r gofyniad i baratoi CSCA, mae Adran 84 hefyd yn nodi gyda phwy y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth baratoi neu adolygu ei Gynllun ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi personau eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â hwy. Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu wrthod y Cynllun a pharatoi Cynllun arall sydd i'w drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod. Mae is-adran (7) o Adran 85 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei Gynllun cymeradwy.

2.2 Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 oedd y rheoliadau cyntaf a wnaed o dan bwerau adran 87. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn disodli'r rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol baratoi Cynllun deng mlynedd, y cyntaf i gael effaith o 1 Medi 2022, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

2.3 Maent hefyd yn darparu ar gyfer ffurf a chynnwys Cynllun (rheoliad 3), hyd y Cynllun (rheoliad 4), y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r Cynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo (rheoliad 5), y gymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun (rheoliad 6), amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiad adolygu (rheoliad 7), trefniadau ar gyfer diwygio Cynllun (rheoliad 8), y personau a'r cyrff y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy ar y Cynllun drafft (rheoliad 9), y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi'r Cynllun (rheoliad 10), dull cyhoeddi Cynllun

(rheoliad 11), dirymu, gydag arbedion, Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 (rheoliad 12).

2.4 Pwrpas y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi'r disgwyliad presennol ac yn y dyfodol ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd gwella cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg hefyd yn cefnogi'r uchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg fel y nodir yn strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, ein strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a hefyd cyflwyniad y cwricwlwm newydd i Gymru.

2.5 Mewn ymateb i bandemig COVID-19, diwygiwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 i rym ar 1 Rhagfyr 2020 ac maent yn gwneud newidiadau i ddyddiad cychwyn cylch nesaf CSCA sy'n cael ei symud o 1 Medi 2021 i flwyddyn yn ddiweddarach (hyd at Fedi 2022).

## 3. Cyd-destun Strategol

3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y Ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg sy’n Ffynnu'.  Mae'n ddyletswydd arnom i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

3.2 Ffyniant i Bawb: nod y strategaeth genedlaethol a'r rhaglen ar gyfer y Llywodraeth, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 yw sbarduno gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n llewyrchus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac sy’n dysgu, ac unedig a chysylltiedig. Un o'r blaenoriaethau yw datblygu dull trawsnewidiol o ddysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg gyda'r nod o sicrhau, yn y dyfodol, y bydd pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

3.3 Cyhoeddwyd ein strategaeth Gymraeg genedlaethol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ym mis Awst 2017.  Ymgorfforwyd ein huchelgais ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd yn nodau a gwerthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hefyd Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol.

3.4 Addysg yng Nghymru: Mae ein Cenhadaeth Genedlaethol, Cynllun Gweithredu 2017-2110 yn nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys chweched dosbarth, yn symud ymlaen yn y cyfnod tan 2021 i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae’r bwriadau ar gyfer dysgwyr yn cynnwys

‘awydd i ddysgwyr ddod yn fwyfwy dwyieithog gyda gafael gref ar ieithoedd eraill’. Yn 2018, ailddatganodd y Prif Weinidog a’r Gweinidog Addysg eu hymrwymiad i Gytundeb Blaengar 2016, gan ddiweddaru’r blaenoriaethau Cyffredin ac Addysg i gynnwys, ymhlith eraill, ymrwymiadau i annog athrawon sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau i addysgu ymhellach drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithio gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phartneriaid eraill i wella darpariaeth sgiliau, cyrsiau galwedigaethol, a hyrwyddo cyrsiau cyfrwng Cymraeg a recriwtio a chadw athrawon, yn unol â'n strategaeth Cymraeg 2050.

3.5 Mae Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg, 2017-2021 yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a’r Gymraeg yn unol â'r weledigaeth yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ac Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol, Cynllun Gweithredu 2017–2021.

## 4. Gofynion Ymgynghori

4.1 Disgwylid i ni ymgynghori am ddim llai nag 8 wythnos gyda rhestr ragnodedig o bobl fel y'u rhestrir yn Atodiad B.

4.2 Dechreuon ni ymgynghori ar y CSCA ar 27 Medi 2021, ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r drafft. Daeth yr ymgynghoriad i ben 22 Tachwedd 2021.

4.3 Cyflwynwyd 21 ymateb o'r prif ymgynghoriad. Gellir gweld crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad yn Atodiad C.

4.4 Diwygiwyd a diweddarwyd fersiwn ddrafft y CSCA, gan nodi'r ymatebion ymgynghori.

4.5 Mae'r prif ddiwygiadau a wnaed yn dilyn adborth rhagorol gan randdeiliaid ac ymatebwyr fel a ganlyn:

4.5.1 Roedd nifer o ymatebion o'r farn nad oedd gan y cynllun drafft gamau gweithredu ac amserlenni wedi'u diffinio'n glir. Mae hyn bellach wedi'i ddiwygio i sicrhau bod gan bob deilliant y camau hyn sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n rhoi gwell syniad o amserlenni.

4.5.2 Yn ei hanfod, mae'r CSCA yn nodi cynllun strategol a fydd yn cael ei ategu gan gynlluniau gweithredu priodol i droi'r weledigaeth yn realiti. Mae angen i’r cynllun strategol a’r cynlluniau gweithredu cysylltiedig fod yn ddogfennau ‘byw’ a fydd yn cael eu hadolygu fel y bo’n briodol trwy gydol y blynyddoedd i ddod. Yn ôl eu natur, dim ond ar ôl cwblhau a chymeradwyo'r cynllun strategol hwn yn ffurfiol y gellir datblygu'r cynlluniau gweithredu yn llawn.

4.5.3 Ychwanegwyd bellach setiau data allweddol at bob Deilliant i osod yr olygfa a, lle bo angen, gosod targedau clir.

## 5. Y Broses Gymeradwyo a Monitro Blynyddol

5.1 Yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad, mae adroddiad nawr wedi'u baratoi ar gyfer y Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth derfynol i'r Cynllun drafft cyn ei gyflwyno i Weinidog y Gymraeg ac Addysg i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022.

5.2 Gall y Gweinidog gymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu wrthod y Cynllun a pharatoi Cynllun arall sydd i'w drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod.

5.3 Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad adolygu i Weinidogion Cymru, gan ddechrau yn 2023, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau a gynhwysir yn ein Cynllun a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r datganiadau yn ein Cynllun. Rhaid cyflwyno adroddiad yr adolygiad cyntaf i Weinidogion Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2023 fan bellaf a bydd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed a'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y cyfnod ers i'r Cynllun deng mlynedd cyntaf ddod i rym.

5.4 Rhaid cyflwyno adroddiadau adolygu dilynol i Weinidogion Cymru ar gyfnodau nad ydynt yn hwy na 12 mis calendr ar ôl cyflwyno'r adroddiad blaenorol.

## 6. Goblygiadau Asesu Integredig

6.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru), ac mae'n rhaid iddynt wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Deddfau.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Cyflawni gwell canlyniadau i'r bobl hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Peidio â thrin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

6.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2005 yn gorfodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn

unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â’r nod o gyflawni’r ‘nodau llesiant’.

6.3 Mae ein proses Asesiad Effaith Integredig (IIA) yn sicrhau ein bod wedi rhoi sylw dyledus i'r uchod. Mae hefyd yn ystyried materion a blaenoriaethau allweddol eraill, megis tlodi ac allgáu cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, gofalwyr, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'r Gymraeg.

6.4 Cynhaliwyd sgrinio IIA (Atodiad D) a phenderfynwyd nad yw'r cynllun yn berthnasol ar gyfer adroddiad IIA llawn ar hyn o bryd.

6.5 Bydd y Cynllun hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac ar holl ddinasyddion Abertawe wrth i'r buddion o fod yn ddinasyddion dwyieithog/amlieithog gael eu gwireddu.

6.6 Bydd pob ysgol yn ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y buddion yn cael eu gwireddu ar draws ein holl ysgolion. Mae'r holl argymhellion yn cyd-fynd â disgwyliadau ac ystyriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) heb unrhyw risg wrth eu gweithredu. Ystyrir yr effaith gronnus yn gadarnhaol iawn.

6.7 Unwaith y bydd y Cynllun terfynol wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, ac wedi hynny y Gweinidog, cwblheir IIA llawn i gefnogi ein cynllun gweithredu blynyddol i sicrhau bod effaith pob gweithred yn cael ei hasesu'n llawn a bod y CSCA yn cael effaith gadarnhaol ar BOB plentyn a phobl ifanc yn Abertawe.

## 7. Goblygiadau Ariannol

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 8. Goblygiadau Cyfreithiol

8.1 Nodir y gofynion statudol yn yr adroddiad. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**Papurau Cefndir:**

Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf

CSCA Abertawe 2017-2020
https://www.abertawe.gov.uk/wesp

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Medi 2022 – Awst 2032 |
| Atodiad B | Rhestr ragnodedig o ymgyngoreion |
| Atodiad C | Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad |
| Atodiad D | Sgrinio Asesiad Effaith Integredig |

# Cyngor Abertawe

# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)
# Medi 2022 - Awst 2032

Gwneir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn o dan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth osod ein targedau.

# Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru … Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb …

Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2017)

Ers troad y ganrif mae Abertawe wedi gweld cynnydd amlwg yn nifer y disgyblion sy'n cyrchu addysg cyfrwng Cymraeg. Cefnogwyd y cynnydd hwn yn y galw drwy agor tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg arall ac un ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg arall. Yn ogystal, mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Cyngor i wneud buddsoddiad enfawr ar draws stoc ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yn 2022 byddwn yn gweld mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg yn cael eu creu gydag agoriad yr adeiladau a'r cyfleusterau newydd a gwell ar gyfer YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw. Dilynir hyn gan ofod ystafell ddosbarth ychwanegol yn YGG Bryn y Môr ac YGG Y Login Fach. I ategu'r ddarpariaeth hon rydym hefyd yn darparu darpariaeth wedi'i chyfoethogi yn ein hysgolion cyfun cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe sy'n cynnwys gwella'r amgylcheddau dysgu yn fewnol ac yn allanol. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer ein taith tuag at 2050.

Gyda chreu'r lleoedd ychwanegol hyn, ein nod yw gweithio gyda'n holl bartneriaid i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd i sicrhau y gall pob rhiant a theulu wneud penderfyniad hyddysg cyn gynted â phosibl ym mywyd eu plentyn. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn anoddach mewn rhai rhannau o'r ddinas a'r sir i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o oedran ifanc. Byddwn yn ceisio cynyddu cyfleoedd i gael mynediad at ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar fel bod gan fwy o rieni ddewis gwirioneddol wrth ddewis addysg sydd orau ganddyn nhw i'w plant. Wrth i'r lleoedd ychwanegol yn ein stoc ysgolion cyfredol gael eu llenwi byddwn yn adolygu lle mae angen lleoedd pellach yn Abertawe i wireddu hyd eithaf targed Abertawe. Bydd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn llai hygyrch.

Mae datblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn weledigaeth inni ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd creu cyfleoedd i holl ddisgyblion Abertawe

ddod yn ddwyieithog/amlieithog fel eu bod yn dod allan o'n system addysg, yn falch o'u hunaniaeth ac yn hyderus i ddefnyddio'r holl ieithoedd y maent wedi'u caffael.

Wrth i Abertawe ddatblygu ei Strategaeth Hybu’r Gymraeg nesaf 2022-2027 byddwn yn gweithio ar draws y Cyngor a thu hwnt i sicrhau bod y CSCA yn cael ei gefnogi a'i gryfhau gan benderfyniadau a chyfleoedd trwy gydol oes y Strategaeth.

Wrth hyrwyddo dwyieithrwydd, rydym yn rhoi cyfle i'n holl blant ffynnu yn yr iaith o'u dewis, cynyddu eu cyfleoedd bywyd a thrwy ddysgu mwy nag un iaith, hwyluso dysgu ieithoedd eraill.

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, mae'n hanfodol ein bod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Byddwn, trwy Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a thrwy weithio gyda'n holl bartneriaid yn parhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i holl ddysgwyr Abertawe ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.

Gan ystyried hyn i gyd, mae ein gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel a ganlyn:

1. Rhoi cyfle cyfartal i bob dysgwr ddysgu Cymraeg a siarad yr iaith yn hyderus a hyrwyddo buddion dwyieithrwydd.
2. Cynyddu canran y disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau ei fod ar gael ac yn hygyrch i bob dysgwr, o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi. Cynyddu canran y disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, i rhwng 23% a 27% o ddisgyblion Blwyddyn 1 erbyn diwedd y Cynllun, a chymhwyso egwyddorion y cymdogaethau 15 munud i sicrhau fod gan bob dysgwr fynediad i addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol o'u cartrefi.
3. Bydd dysgwyr sydd wedi mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd yn cael eu hannog a i barhau â hyn wrth drosglwyddo i gyfnodau allweddol dilynol yn y cyfnod uwchradd a disgwylir iddyn nhw wneud hynny.
4. Sicrhau twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill ac sy'n gallu defnyddio eu hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, ffrindiau, cymdogion ac yn y gweithle.
5. Rhoi cyfle ieithyddol cyfartal i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
6. Rhoi cyfle ieithyddol cyfartal i ddysgwyr sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol.
7. Dyheu, trwy'r cynllun hwn, bod Abertawe'n cyfrannu'n sylweddol at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r ddogfen hon yn ei hanfod yn nodi cynllun strategol a fydd yn cael ei ategu gan gynlluniau gweithredu priodol i droi'r weledigaeth yn realiti. Mae angen i’r cynllun strategol a’r cynlluniau gweithredu cysylltiedig fod yn ddogfennau ‘byw’ a fydd yn cael eu hadolygu fel y bo’n briodol trwy gydol y blynyddoedd i ddod. Yn ôl eu natur, dim ond ar ôl cwblhau a chymeradwyo'r cynllun strategol hwn yn ffurfiol y gellir datblygu'r cynlluniau gweithredu yn llawn.

# Ein targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Abertawe yn ystod oes y Cynllun. Dyma'r targed deng mlynedd cyffredinol ar gyfer CSCA 2022-2032.

Bydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ym mhob grŵp blwyddyn, felly mae'r targed yn seiliedig ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 (plant 5 a 6 oed), sy'n cynrychioli dechrau addysg statudol. Mae data PLASC ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yn cynrychioli'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael i ddysgwyr ar gamau cynharaf addysg ysgol gynradd.

Yn ogystal, mae awdurdodau lleol wedi'u grwpio i wahanol gategorïau sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau (ac yn cydnabod elfennau tebyg) rhwng y 22 awdurdod lleol. Roedd y ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr a addysgwyd yn Gymraeg yn ein hardal; modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd gennym ni a natur ieithyddol ein hardal. At y diben hwn mae Abertawe wedi'i gosod yng Ngrŵp 3.

*Grŵp 3: Roedd rhwng 14% a 19% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/2020. Efallai mai addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw'r norm mewn un/nifer fach iawn o feysydd, ond dyma'r eithriad nid y rheol. Fel arfer mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.*

**Targed Abertawe**

| | 2019/2020 | | Targed 2030/2031 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ystod Isaf | | Ystod Uchaf | |
| Abertawe | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| | 390 | 15.4% | 590 | 23% | 695 | 27% |

Mae'r ystod isaf wedi'i gosod fel bod y targed cenedlaethol o 30% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030/2031. Ni ddylid ystyried bod yr ystod uchaf yn derfyn uchaf - fe'n hanogir i ragori ar y targedau lle bo hynny'n bosibl.

Wrth i ni baratoi'r cynllun 10 mlynedd hwn, nifer y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Ionawr 2021) yw 388, sy'n cynrychioli 15.1% o garfan y flwyddyn honno yn Abertawe ac erbyn Ebrill 2021 yr oedd yn 383 – 14.9%.

Y rhif derbyn ar gyfer ein hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2021 yw 495. Mae hyn yn golygu bod lle ar hyn o bryd i 107 o blant ychwanegol gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng ngharfan Blwyddyn 1. Byddai hyn yn cynrychioli 19.2% o'r garfan gyfredol.

Mae'r Cyngor yn anelu at gynyddu nifer y disgyblion a'r teuluoedd sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Abertawe yn sylweddol. Ar sail y cynnydd % targed a ragnodir gan Lywodraeth Cymru, a'n rhagolwg o'r boblogaeth disgyblion dros y 10 mlynedd nesaf, bydd angen i ni:

- Cynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 200 a 400 o ddisgyblion (yn seiliedig ar ffigurau cyfredol y garfan). O ystyried lleoliad a chyfansoddiad ieithyddol ein hysgolion ar hyn o bryd, mae gennym y strategaethau cyflenwol canlynol i gyflawni'r cynnydd targed mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg:

  → Cynyddu'r cynnig cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg fel rhan o strategaeth farchnata ehangach i hyrwyddo buddion bod yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys o leiaf un Cylch Meithrin sy'n gysylltiedig â phob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a/neu ardaloedd yn eu dalgylch ac edrych ar gyfleoedd i gynyddu'r cynnig Cymraeg Dechrau'n Deg yn ein lleoliadau presennol.
  → Llenwi'r tua 107 lle cyfrwng Cymraeg Blwyddyn 1 ychwanegol sydd eisoes ar gael yn ein hysgolion trwy hyrwyddo'n effeithiol fuddion darpariaeth ddwyieithog.
  → Sefydlu ysgol(ion) cyfrwng Cymraeg newydd/cynyddu capasiti mewn ardaloedd lle mae galw mawr a/neu nodi ardaloedd lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn llai hygyrch ar hyn o bryd. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen cynnwys prosiectau mewn rhaglen gyfalaf yn y dyfodol.

# Deilliannau allweddol

Er mwyn cefnogi'r broses gynllunio, mae'n ofynnol i ni drefnu ein Cynllun o amgylch y deilliannau isod. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn gyson â meysydd polisi Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol.

- Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall.
- Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
- Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Amcan 1: Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Dangosir nifer y plant meithrin (M2)/plant tair oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf yn y tabl isod.

| Meithrin | Ionawr 2017 | | Ionawr 2018 | | Ionawr 2019 | | Ionawr 2020 | | Ebrill 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 404 | | 388 | | 400 | | 382 | | 342 | 15.42 |

At ddibenion cymharu mae'r niferoedd dros yr un cyfnod yn ein darpariaeth Meithrin (M2) cyfrwng Saesneg fel a ganlyn:

| Meithrin | Ionawr 2017 | | Ionawr 2018 | | Ionawr 2019 | | Ionawr 2020 | | Ebrill 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 2119 | | 2083 | | 2112 | | 2008 | | 1906 | 84.8% |

Mae'n bwysig nodi hefyd, fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, y gyfradd genedigaethau sy'n dirywio yn Abertawe yn ystod yr un cyfnod ac y dylai'r ffocws fod ar ganran y disgyblion yn hytrach na'r niferoedd gwirioneddol.  Mae angen i ni hefyd ddeall yn llawn effaith COVID-19 a chydnabod bod angen bod yn ofalus wrth drin amcanestyniadau ar hyn o bryd.

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**

Mae Amcan 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi sut y byddwn yn defnyddio data sy'n deillio o'n hadolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer ein hardal (o dan ddyletswyddau a nodir yn rheoliad 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016) i lywio'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.

Rhaid i ni hefyd esbonio’n glir sut y byddwn yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr ynghylch argaeledd a'r math o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a gynigir, sut y byddwn yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n nodi bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau waeth beth fo'u cefndir ieithyddol a sut y byddwn yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y buddion y gall dwyieithrwydd ac amlieithrwydd eu cynnig.

Yn olaf, mae angen datganiad arnom yn nodi sut y byddwn ni, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill yn ôl yr angen, yn hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â chludiant dysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008).

Mae ein targedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf fel y nodir yn y tabl isod:

| **Niferoedd a % y plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-2023 | | 2023-2024 | | 2024-2025 | | 2025-2026 | | 2026-2027 | |
| 355 | 16.3% | 363 - 367 | 17.1 - 17.3 | 373 - 381 | 17.1 - 17.5 | 385 - 397 | 17.8 - 18.4 | 399 - 417 | 18.5 - 19.4 |
| 2027-2028 | | 2028-2029 | | 2029-2030 | | 2030-2031 | | 2031-2032 | |
| 415 - 439 | 19.9 - 20.3 | 433 - 465 | 19.9 - 21.4 | 455 - 495 | 20.9 - 22.7 | 481 - 525 | 21.9 - 23.9 | 507 - 595 | 23%-27% |

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a chynyddu nifer y lleoedd addysg feithrin cyfrwng Cymraeg o 15.4% i rhwng 23-27% o'r garfan gymwys erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd, yn y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Gweithio gyda Mudiad Meithrin i agor 3 lleoliad Cylch Meithrin newydd (7 lleoliad yn Abertawe ar hyn o bryd) yn nalgylchoedd ysgolion YGG Lon Las, YGG Y Login Fach ac YGG Tan-y-lan ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu opsiynau gofal plant cofleidiol cyfrwng Cymraeg i gefnogi rhieni. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol, i gynnwys pob plentyn 2 oed, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithrediad.
2. Gweithio gyda Mudiad Meithrin a phartneriaid eraill i gychwyn 5 Cylch Ti a Fi newydd (9 yn Abertawe ar hyn o bryd) i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio Cymraeg cynnar i rieni a'u plant.
3. Datblygu strategaeth Cymraeg ar draws ein holl leoliadau Dechrau'n Deg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o leoliadau Cymraeg (1 ar hyn o bryd).
4. Fel rhan o strategaeth farchnata glir ar fuddion bod yn ddwyieithog/amlieithog, creu llwyfan digidol priodol i ddarparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel i rieni a gofalwyr. Bydd hyn ar y cyd â sefydliadau partner ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth leol i hyrwyddo ymwybyddiaeth, ysgogi diddordeb a chefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus.
5. Cynnal adolygiad llawn o broses derbyniadau'r cyngor i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwbl ymwybodol o'r cynnig Cymraeg ar bob cam o'r broses a bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus.
6. Archwilio cyfleoedd gyda chydweithwyr Iechyd i gasglu gwybodaeth gan rieni wrth gofrestru genedigaeth eu plentyn er mwyn sefydlu ffordd fwy uniongyrchol o gyfathrebu â theuluoedd am ein cynnig Cymraeg a manteision bod yn ddwyieithog/amlieithog.
7. Comisiynu ymchwil mewn meysydd lle mae'r defnydd o Gymraeg yn isel a/neu o fewn grwpiau/cymunedau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) i ddeall y rhesymau dros hyn a datblygu cynllun gweithredu clir i wella'r wybodaeth sydd ar gael a'i hyrwyddo i'r grwpiau a'r ardaloedd hyn.
8. Comisiynu ymchwil gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol ar amrywiol ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o fanteision bod yn ddwyieithog ac o addysg cyfrwng Cymraeg.
9. Cefnogi ysgolion, Mudiad Meithrin a Choleg Gŵyr Abertawe gyda datblygu, hyrwyddo a darparu cymwysterau gofal plant i gynyddu nifer y staff sydd ar gael i weithio yn y nifer cynyddol o leoliadau.

10. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo cynnig hyfforddiant pwrpasol i staff ar draws pob lleoliad gofal plant yn Abertawe i ganiatáu i bob lleoliad gynyddu eu cynnig Cymraeg.
11. Datblygu meincnod Abertawe i nodi a hyrwyddo'r cynnig Cymraeg ar draws pob lleoliad gofal plant ac annog a hyrwyddo Cynnig Gweithredol ar draws yr holl ddarparwyr cyn-ysgol a gofal plant.

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

12. Cynyddu nifer y lleoedd addysg feithrin cyfrwng Cymraeg sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth gynradd er mwyn sicrhau bod gennym allu a dosbarthiad priodol o leoedd ledled y ddinas a'r sir. Bydd hyn yn cynnwys agor 3 math newydd o fynediad (yn amodol ar gyllid cyfalaf a phrosesau ymgynghori statudol). Byddai unrhyw adeiladau newydd yn ystyried lleoliad Mudiad Meithrin cefnogol.
13. Gweithio gydag ysgolion a Mudiad Meithrin i nodi dalgylchoedd ysgolion a fyddai'n elwa o gael lleoliad ychwanegol a cheisio cyflawni hyn.
14. Datblygu opsiynau gofal plant cofleidiol cyfrwng Cymraeg i gefnogi rhieni i gael mynediad at y cynnig 30 awr ar y cyd â'n partneriaid gan gynnwys Mudiad Meithrin trwy:
    a. Archwilio dichonoldeb i gynnwys gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg (fel darpariaeth Cylch Meithrin) i'w cynnwys ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel sydd wedi digwydd yn YGG Tirdeunaw ac YGG Tan-y-lan.
    b. Archwilio cyfleoedd i gynnwys gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg (fel darpariaeth Cylch Meithrin) i'w cynnwys mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol gan ddefnyddio grantiau cyfalaf Cymru.
15. Sicrhau fod cydweithwyr iechyd a gwasanaethau cyffredinol eraill yn ymwybodol o’r CSCA ac wrthi’n hyrwyddo negeseuon cyson ynghylch buddion bod yn ddwyieithog/amlieithog ac yn gallu chwalu chwedlau a phryderon i gefnogi penderfyniadau rhieni ynghylch addysg eu plentyn.
16. Adolygu'r sefyllfa drafnidiaeth gyfredol ar gyfer disgyblion meithrin ac, yn amodol ar unrhyw newidiadau ym Mesur Trafnidiaeth Cymru, adolygu’r hyn y gellir ei wneud i hyrwyddo ymhellach fynediad at y cynnig cyfrwng Cymraeg. Ystyrir hyn ochr yn ochr ag agenda Newid Hinsawdd Abertawe.

**Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu’r camau uchod yn cynnwys:**

- Cyngor Abertawe
- Mudiad Meithrin a’r Cylchoedd Meithrin
- Ysgolion Abertawe
- Menter Iaith Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Tîm Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Darparwyr gofal plant preifat
- Pob Lleoliad Dechrau’n Deg
- Partneriaeth
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot

# Amcan 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Dangosir nifer y plant dosbarth derbyn/plant pump oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf yn y tabl isod.

| Dosbarth Derbyn | Ionawr 2017 | | Ionawr 2018 | | Ionawr 2019 | | Ionawr 2020 | | Ebrill 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 438 | 15.6% | 412 | 15.8% | 397 | 15.7% | 400 | 15.5% | 379 | 15.4% |

At ddibenion cymharu mae'r niferoedd dros yr un cyfnod yn ein dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Saesneg fel a ganlyn:

| Dosbarth Derbyn | Ionawr 2017 | | Ionawr 2018 | | Ionawr 2019 | | Ionawr 2020 | | Ebrill 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 2358 | 84.4% | 2188 | 84.2% | 2126 | 84.3% | 2165 | 84.5% | 2092 | 84.6% |

Ar y dudalen nesaf rydym yn edrych ar y sefyllfa bresennol ar draws ein holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac yn tynnu sylw at y cyfleoedd pellach sy'n gysylltiedig â'n hysgolion presennol.

| Ysgol | Ionawr 2021 Nifer Plant Llawn Amser | Capasiti Cyfredol | | % Gwarged Cyfredol | Camau pellach arfaethedig (Yn amodol ar gymeradwyo'r buddsoddiad angenrheidiol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Capasiti Cyfredol | Gwahaniaeth Cyfredol | | |
| Bryniago | 184 | 222 | 38 | 17.1% | Ystyried sgôp ar gyfer darpariaeth feithrin / cofleidiol i hybu niferoedd derbyn. Adolygu'r galw am leoedd a safleoedd amgen yng ngoleuni datblygiadau Safle Strategol y CDLl a newidiadau mewn darpariaeth trawsffiniol |
| Bryn-y-mor | 224 | 260 | 36 | 13.8% | Ystyried sgôp ar gyfer gwella cyfleusterau ymhellach a chynyddu capasiti ar y safle ar gyfer disgyblion / cael gwared ar lety is-safonol yn ogystal â safleoedd amgen posibl |
| Gellionen | 218 | 305 | 87 | 28.5% | Dylai fod lle i gynyddu niferoedd yn yr ysgol |
| Llwynderw | 303 | 320 | 17 | 5.3% | Adeilad newydd sy'n briodol i'r galw presennol |
| Lon Las | 437 | 530 | 93 | 17.5% | Adeilad newydd (2.5 AB) yn briodol ar gyfer y galw presennol |
| Pontybrenin | 505 | 501 | -4 | -0.8% | Darperir ystafelloedd dosbarth ychwanegol wrth adolygu'r galw am leoedd a chyfleoedd ar gyfer adeiladau newydd / safle gwell yng ngoleuni datblygiadau Safle Strategol y CDLl. Adolygu effaith newidiadau dalgylch. |
| Tan Y Lan | 161 | 420 | 259 | 61.7% | Adolygu effaith adeiladau newydd a newidiadau mewn dalgylchoedd mewn niferoedd derbyn |
| Tirdeunaw | 342 | 525 | 183 | 34.9% | Adolygu effaith adeiladau newydd a newidiadau mewn dalgylchoedd mewn niferoedd derbyn |
| Y Cwm | 137 | 197 | 60 | 30.5% | Ystyried y posibilrwydd o wneud y defnydd gorau o'r safle yn y dyfodol yng ngoleuni'r galw am leoedd |
| Y Login Fach | 208 | 214 | 6 | 2.8% | Adolygu'r galw am leoedd yn y dyfodol yng ngoleuni safle strategol y CDLl - potensial ar gyfer safle newydd mwy. Ystyried lle i wella cyfleusterau ymhellach a chynyddu capasiti on site for pupils. |
| Strategaeth Cyffredinol | | | | | Adolygiad pellach o ddalgylchoedd i adlewyrchu newidiadau mewn capasiti / trefniadaeth ysgolion / effeithiau CDLl Mynediad i adnoddau angenrheidiol a buddsoddiad cyfalaf i gyflawni strategaeth y tu hwnt i Fand B a darparu 2/3 dosbarth mynediad pellach |
| **Cyfanswm Cynradd** | **2,719** | **3,494** | **775** | **22.2%** | |

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**

Mae Amcan 2 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant derbyn sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hardal yn ystod oes y Cynllun.

Rhaid i ni hefyd nodi sut y byddwn yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, sut y bydd ceisiadau a wnawn am arian grant gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'n hysgolion a gynhelir yn ystyried y

targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'n trefniadau o ran y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y darperir gwybodaeth i rieni a gofalwyr.

Mae Cyngor Abertawe wedi cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg o 1,912 o leoedd ym mis Medi 2004 i'r cyfanswm cyfredol o 3,494 o leoedd, cynnydd o 1,582 neu 82.7%. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol parhaus mewn llety a chyfleusterau cyfrwng Cymraeg ac yn dod i gyfanswm o £36.9m hyd yma ym Mand B y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn unig.

Mae ein targedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf fel y nodir yn y tabl isod:

| **Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-2023 | | 2023-2024 | | 2024-2025 | | 2025-2026 | | 2026-2027 | |
| 369 | 16.9 | 375 - 380 | 17.7 - 17.9 | 385 - 392 | 17.7 - 18.0 | 395 - 408 | 18.3 - 18.9 | 407 - 425 | 18.9 - 19.7 |
| 2027-2028 | | 2028-2029 | | 2029-2030 | | 2030-2031 | | 2031-2032 | |
| 421 - 445 | 19.5 - 20.6 | 437 - 469 | 20.1 - 21 6 | 457 - 497 | 20.9 - 22.8 | 481 - 525 | 21.9 - 23.9 | 507 – 595 | 23%-27% |

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a chynyddu canran y plant oed Derbyn sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o gymryd lleoedd addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg o 15.4% i rhwng 23-27% o'r garfan gymwys erbyn diwedd y 10 mlynedd cynllun, yn y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd ar 10% yn ychwanegol at y cymeriant a ragwelir i gefnogi twf a chaniatáu ar gyfer derbyniadau yn y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer trosglwyddo.
2. Cyflwyno capasiti canolig cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar lefel cynradd (gyda dosbarth Meithrin) fel rhan o'n strategaeth gyfalaf a'n Cynllun Datblygu Lleol yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd dros ben sydd ar gael mewn rhai ardaloedd.
3. Annog 100% o blant sy'n mynychu Cylch Meithrin i drosglwyddo i feithrinfa cyfrwng Cymraeg trwy greu partneriaethau ffurfiol sy'n cynnwys ysgolion unigol, Mudiad Meithrin a Chyngor Abertawe.
4. Ym Mlwyddyn 1 byddwn yn cwblhau'r adolygiad o'n darpariaeth drochi sylfaenol gyfredol ac yn gosod cynllun gweithredu clir i wella'r cynnig i gefnogi caffael iaith dwys a dal i fyny. Rydym wedi llwyddo i gael grant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith cychwynnol hwn.
5. Hyrwyddo'r ddarpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg gynradd i bob ymholiad trosglwyddo newydd yn ystod y flwyddyn i'w derbyn i ysgolion Abertawe.
6. Archwilio a datblygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth hwyrddyfodiaid uwchradd i gefnogi dysgwyr sydd am drosglwyddo yn nes ymlaen yn eu taith addysg a hefyd i gefnogi disgyblion cyfredol yn ein hysgolion sydd mewn perygl o adael addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi llwyddo i gael grant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn.
7. Hyrwyddo buddion dwyieithrwydd yn weithredol i deuluoedd sy'n ceisio lle addysg yn Abertawe gan ein gwasanaeth derbyniadau ac yn ein llenyddiaeth canllawiau derbyn.

8. Comisiynu ymchwil mewn meysydd lle mae'r rhai sy'n cymryd addysg cyfrwng Cymraeg yn isel a/neu o fewn grwpiau/cymunedau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) i ddeall y rhesymau dros hyn a datblygu cynllun gweithredu clir i wella'r gwybodaeth sydd ar gael a hyrwyddo'r hyn sydd ar gael i'r grwpiau a'r ardaloedd hyn.
9. Gwella ystod a hyrwyddiad gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cymdeithasol eraill o fewn a thu allan i'r ysgol ar y cyd â'n partneriaid gan gynnwys Menter Iaith Abertawe, yr Urdd, ein hysgolion, busnesau lleol a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.
10. Fel rhan o'n strategaeth farchnata glir ar fuddion bod yn ddwyieithog/amlieithog, cynyddu'r llenyddiaeth a'r arweiniad sydd ar gael i gefnogi teuluoedd sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plentyn gydag ystod o astudiaethau achos gwell i ddangos amrywiaeth ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a buddion i ddysgu Cymraeg waeth beth yw iaith eich cartref.

**Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:**

11. Cyflwyno'r capasiti pellach sy'n ofynnol i gyflawni cyfanswm o leiaf 3 capasiti cyfrwng Cymraeg AB ar lefel cynradd (gyda dosbarth meithrin) ar draws oes y cynllun.
12. Creu'r cyfleoedd i bartneriaethau traws-ysgol wella ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ac annog plant i fod â mwy o awydd i ddysgu ac o bosibl ystyried trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.
13. Cefnogi pob ysgol i ddatblygu a gweithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 i sicrhau twf yn y cyfleoedd i bob plentyn yn y ddinas a'r sir ddysgu Cymraeg a theimlo'n hyderus wrth ddatblygu eu sgiliau a siarad yr iaith. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu a gweithredu un continwwm o ddysgu Cymraeg gan Lywodraeth Cymru.
14. Uwch-sgilio'r cymhwysedd ieithyddol y gweithlu addysgu a dysgu cyfrwng Saesneg cyfredol i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i gefnogi gwell dysgu'r Gymraeg gyda'r holl ddisgyblion fel rhan o'r cynnig Cwricwlwm i Gymru newydd.

**Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:**

- Cyngor Abertawe
- Mudiad Meithrin a'r Cylchoedd Meithrin
- Ysgolion Abertawe
- Menter Iaith Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Tîm Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Darparwyr gofal plant preifat
- Pob Lleoliad Dechrau'n Deg

# Amcan 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall.

Yn Abertawe mae gennym hanes da iawn o gadw disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Dros y tair blynedd diwethaf mae hyn wedi gweld 99.7%, 98.7% a 97.5% yn y drefn honno yn trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Abertawe.

## Rhifau Trosglwyddo Cyfrwng Cymraeg

| | | Ymadawyr Blwyddyn 6 yn … | | | Derbyniad Blwyddyn 7 yn … | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliad** | **Ysgol** | **2018** | **2019** | **2020** | **2018** | **2019** | **2020** |
| 2189 | YGG Bryniago | 19 | 34 | 24 | | | |
| 2098 | YGG Bryn-Y-Mor | 31 | 33 | 44 | | | |
| 2133 | YGG Felindre | 0 | 6 | 0 | | | |
| 2232 | YGG Gellionnen | 29 | 28 | 43 | | | |
| 2235 | YGG Llwynderw | 40 | 42 | 43 | | | |
| 2036 | YGG Lonlas | 77 | 68 | 51 | | | |
| 2212 | YGG Pontybrenin | 49 | 70 | 53 | | | |
| 2242 | Y G G Tan-y-lan | 7 | 14 | 19 | | | |
| 2231 | Y G G Tirdeunaw | 53 | 61 | 56 | | | |
| 2229 | Y G G Y Login Fach | 30 | 30 | 30 | | | |
| 2245 | YG Y Cwm | 0 | 2 | 3 | | | |
| 4078 | Ysgol Gyfun Bryn Tawe | | | | 164 | 169 | 164 |
| 4074 | Ysgol Gyfun Gŵyr | | | | 170 | 214 | 193 |
| | **Cyfansymiau** | **335** | **388** | **366** | **334** | **383** | **357** |
| | **Canran Cadw** | | | | **99.7%** | **98.7%** | **97.5%** |

Ar y dudalen nesaf rydym yn edrych ar y sefyllfa bresennol ar draws ein holl ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac yn tynnu sylw at y cyfleoedd pellach sy'n gysylltiedig â'n hysgolion presennol.

| Ysgol | Ionawr 2021 Nifer Plant Llawn Amser | Capasiti Cyfredol: Capasiti Cyfredol | Capasiti Cyfredol: Gwahaniaeth Cyfredol | % Gwarged Cyfredol | Camau pellach arfaethedig (Yn amodol ar gymeradwyo’r buddsoddiad angenrheidiol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bryn Tawe | 882 | 1,243 | 361 | 29.0% | Adolygu'r galw am leoedd a chyfleoedd yng ngoleuni datblygiadau / cyfraniadau Safle Strategol y CDLl. Sicrhau bod y llety presennol yn briodol ar gyfer y niferoedd a gynllunnir a bod unrhyw gyfle yn cael ei nodi i wella capasiti ymhellach yn y dyfodol (cyflwynwyd achos busnes Band B). Adolygu ymhellach y cysylltiadau partner cynradd presennol i gyfateb yn well y galw am leoedd a chapasiti ysgol yn ogystal ag optimeiddio costau cludiant o'r cartref i'r ysgol. |
| Gwyr | 1,102 | 1,069 | -33 | -3.1% | Ystyried unrhyw sgôp pellach ar gyfer gwella cyfleusterau ar y safle i ddisgyblion (cynllun Band B bron wedi ei gwblhau). Ystyried adolygiad pellach o'r ysgolion cynradd partner sy'n bwydo ar hyn o bryd er mwyn ail-gydbwyso'r galw a'r capasiti ymhellach. |
| Strategaeth Cyffredinol | | | | | Adolygiad pellach o ddalgylchoedd i adlewyrchu newidiadau mewn capasiti / trefniadaeth ysgolion / effeithiau CDLl Mynediad i adnoddau angenrheidiol a buddsoddiad cyfalaf i gyflawni strategaeth y tu hwnt i Fand B a modelau ar gyfer trefniadaeth ysgolion uwchradd yn y dyfodol |
| **Cyfanswm Uwchradd** | **1,984** | **2,312** | **328** | **14.2%** | |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Ysgolion Cymraeg** | **4,703** | **5,806** | **1,103** | **19.0%** | |

* Bydd y gwaith cyfredol sy'n digwydd ar safle Ysgol Gyfun Gŵyr yn gweld y capasiti yn cynyddu i 1273.

## Dilyniant ieithyddol rhwng grwpiau blwyddyn

Mae'r data isod yn dangos y ganran a aseswyd yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) bob blwyddyn, ac eithrio 2020 a 2021 lle rydym wedi defnyddio data PLASC gan na chasglwyd asesiadau diwedd cyfnod allweddol.

| **Blwyddyn** | **CS** | **CA2** | **CA3** | **CA4** |
|---|---|---|---|---|
| **2021** | 15.0% | 14.7% | 12.4% | 12.1% |
| **2020** | 14.4% | 13.6% | 13.1% | 10.8% |
| **2019** | 15.6% | 13.8% | 12.1% | 11.8% |
| **2018** | 14.7% | 12.7% | 11.0% | 10.7% |
| **2017** | 15.7% | 13.5% | 11.5% | 9.7% |
| **2016** | 15.3% | 12.4% | 10.7% | 10.4% |
| **2015** | 14.6% | 11.2% | 9.7% | 9.3% |

Mae'r ganran cyfrwng Cymraeg yn dangos tuedd ar i fyny ym mhob cyfnod allweddol dros y 7 mlynedd diwethaf.

Wrth olrhain carfannau, mae'r canrannau'n tueddu i fod yn debyg, gyda gostyngiad bach o'r cyfrwng Cymraeg (fel y gwelir yn y data cenedlaethol). Er enghraifft, roedd CS yn 2015 yn 14.6% ac yna roedd y grŵp eleni yn 13.8% yn 2019 pan ar ddiwedd CA2. Yna mae yna gwymp bach arall o CA2 i CA3, ond o CA3 i CA4 nid oes fawr ddim wedi gadael ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Gan ein bod wedi ychwanegu mwy o gapasiti mewn ysgolion cynradd, mae'n cymryd amser i'r niferoedd cynyddol weithio drwodd i gyfnodau allweddol diweddarach, a gellir gweld hyn yn y data.

Mae angen gweld ffigurau mwy diweddar ar gyfer mynediad i ysgolion cynradd yng nghyd-destun y cyfraddau genedigaeth isel iawn ar hyn o bryd.

Mae peth tystiolaeth y gallai'r pandemig fod wedi arwain at gynnydd bach yn y cyfraddau gadael o addysg cyfrwng Cymraeg. Mae angen ymchwil pellach i hyn pan fydd mwy o ddata ar gael yn genedlaethol.

Mae'r sefyllfa sy'n ymwneud â phlant sy'n trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ystod y tair blynedd diwethaf fel a ganlyn:

| **Cyrchfannau disgyblion sy'n gadael ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-2019 | | 2019-2020 | | 2020-2021 | |
| Wedi symud allan o Abertawe | 33 | 20.9% | 23 | 20.4% | 33 | 18.1% |
| Wedi trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg arall yn Abertawe | 17 | 10.8% | 8 | 7.1% | 10 | 5.5% |
| Wedi trosglwyddo i ysgol cyfrwng Saesneg yn Abertawe | 45 | 28.5% | 32 | 28.3% | 74 | 40.7% |
| Arall | 63 | 39.9% | 50 | 44.2% | 65 | 35.7% |
| **Cyfansymiau** | **158** | **100.0%** | **113** | **100.0%** | **182** | **100.0%** |

Byddwn yn parhau i fonitro'r data uchod yn y blynyddoedd i ddod i asesu a yw'r cynnydd yn y rhai sy'n symud o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn ddigwyddiad ynysig sy'n deillio o heriau'r pandemig neu batrwm cylchol.

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**

Mae Amcan 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi sut y byddwn yn sicrhau parhad unigolion a addysgir yn Gymraeg wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i'r llall a chynllunio yn unol â hynny os yw cyfraddau cadw yn destun pryder.

Rhaid i ni hefyd osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yn y swm o addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ein hysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan egluro sut y byddwn yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig o ran faint o addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ein hysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a sut y byddwn yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill trwy arfer ein swyddogaethau ar y cyd i sicrhau parhad yn y trefniadau ar gyfer pobl sy'n cyrchu addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i'n hardal.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a chynyddu nifer y plant sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall, yn y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Archwilio, datblygu a darparu darpariaeth/capasiti cyfrwng Cymraeg uwchradd ychwanegol i sicrhau trosglwyddiad di-dor o niferoedd cynyddol yn y sector cynradd yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'n hawdurdodau lleol cyfagos.
2. Sicrhau bod 100% o blant (a'u teuluoedd) sy'n mynychu cyfnod pontio ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i leoliad uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy weithio gyda'n holl ysgolion ar bontio fel rhan o'n strategaeth farchnata ehangach.
3. Gweithio gyda Mudiad Meithrin i sicrhau bod 100% o blant (a'u teuluoedd) sy'n mynychu eu lleoliadau yn trosglwyddo i'n hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac yn ymwybodol o'r llwybr dilyniant cyfrwng Cymraeg llawn.

4. Ceisio sicrhau cyllid i ehangu'r ddarpariaeth drochi cynradd i gefnogi dal i fyny caffael iaith dwys yn ôl yr angen i wella hyder dysgwyr a rhoi mwy o sicrwydd i rieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg y bydd eu plentyn yn cael cyfle i gael cymorth os bydd angen. Bydd hyn yn adeiladu ar waith a wnaed mewn peilot yn 2022 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
5. Ceisio sicrhau cyllid i dreialu darpariaeth drochi uwchradd i ddarparu adnodd i'r rheini sy'n dymuno trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo i'r uwchradd.
6. Gweithio gyda'r holl ysgolion a phartneriaid ehangach i gynorthwyo pob dysgwr i ddod yn amlieithog, i'w galluogi i ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol, a datblygu natur agored a chwilfrydedd am bob iaith a diwylliant yn y byd.
7. Datblygu a darparu templed Cynllun Iaith ar gyfer pob ysgol i gefnogi dilyniannau ieithyddol pob plentyn yn y Gymraeg ac ieithoedd eraill ar draws ein holl ysgolion. Defnyddio Cynghorwyr Gwella Ysgolion i gefnogi ysgolion i lunio cynlluniau iaith cadarn ar gyfer gwella'r Gymraeg gyda ffocws clir ar argymhellion Estyn ysgolion unigol a'r siwrnai ieithyddol a nodir yn y cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn ystyried sefydlu a gweithredu un continwwm o ddysgu'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru.
8. Gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion i wella'r wybodaeth sydd ar gael fel safonol ar wefannau ysgolion unigol i esbonio'r gwerth a roddir ar ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg, y buddion o fod yn ddwyieithog a gwybodaeth gyfoes ynghylch sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi yn eu dysgu.
9. Cynyddu cyfeiriadau at gyfleoedd dysgu a chymdeithasu y tu allan i'r ysgol i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd dysgu ffurfiol yr ysgol.
10. Nodi a darparu cefnogaeth â ffocws i ysgolion lle gallai cyfraddau trosglwyddo fod yn destun pryder a chyhoeddi adnoddau i gynyddu hyder disgyblion, ynghyd â chefnogi a rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr ynghylch trosglwyddo rhwng cyfnodau i annog cadw. Yn ogystal, byddwn yn monitro ceisiadau am drosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r sector cyfrwng Saesneg yn y ddinas a'r sir ac yn gweithio gydag ysgolion i ddarparu cefnogaeth a sicrwydd gyda'r bwriad o ailystyriaeth ar gyfer aros.
11. Gweithio gyda chydweithwyr Partneriaeth i ddarparu cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau i ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu canran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu faint o ddarpariaeth ddysgu a gynigir a chyfleoedd gwell ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.
12. Cefnogi cydweithredu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo dilyniant ieithyddol i rieni/gofalwyr ac sy'n rhoi sicrwydd i gefnogi cadw.
13. Sicrhau fod y siwrnai addysgol gyfan o'r meithrin i ôl-16 yn glir i deuluoedd er mwyn datblygu hyder pellach wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i'w plentyn ddatblygu a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
14. Dathlu a rhannu arfer da ar draws Abertawe a'r Bartneriaeth ehangach.

**Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:**

15. Mynd ymlaen â chynlluniau strategol i gynyddu gallu parhaol darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.
16. Cynyddu capasiti darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg gan gynnwys ceisio sefydlu capasiti dinas a sir ledled y sector cyfrwng Cymraeg ar 10% yn ychwanegol at y cymeriant a ragwelir.
17. Gweithio gyda Partneriaeth i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion, gan gynnwys:

    - Darparu cefnogaeth unigol a chlwstwr i wella safonau addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sector cynradd
    - Darparu dysgu a chefnogaeth broffesiynol i wella safonau addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd. Gweithio gydag arweinwyr ysgolion a'r system ehangach i ddyfnhau dealltwriaeth o addysgeg iaith effeithiol
    - Rhannu arfer da a datblygu adnoddau newydd i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg

18. Yn Abertawe rydym yn dyheu am o leiaf un aelod o staff o bob dosbarth Blynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i fynychu'r cwrs sabothol cenedlaethol. Byddwn yn ceisio cyllid a chyfleoedd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i gefnogi'r dyhead hwn.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Abertawe
- Partneriaeth
- Ysgolion Abertawe
- Menter Iaith Abertawe
- Coleg Gŵyr Abertawe
- RhAG
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Urdd Gobaith Cymru
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Abertawe
- Cyngor y Gweithlu Addysg

# Amcan 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi gweld twf cyson yng nghanran y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a aseswyd yn Gymraeg fel pwnc, fel y dangosir yn y tabl isod. Byddwn yn ceisio gweithio gyda'n hysgolion i sicrhau bod y twf hwn yn parhau trwy gydol oes y Cynllun.

Mae ein hysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynnig cymwysterau wedi'u hasesu ym mhob maes pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n dwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir.

| | | Ymgeisiau TGAU Iaith Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Carfan Bl11** | **Iaith gyntaf** | **Ail iaith** | **Cyfanswm** | **Canran** |
| 2017 | 2404 | 225 | 1590 | 1815 | 75.50% |
| 2018 | 2348 | 248 | 1646 | 1894 | 80.66% |
| 2019 | 2431 | 271 | 1717 | 1988 | 81.78% |
| 2020 | 2470 | 263 | 1803 | 2066 | 83.64% |
| 2021 | 2443 | 292 | 1736 | 2028 | 83.01% |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **12096** | **1299** | **8492** | **9791** | **80.94%** |

**Cofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch (Blwyddyn 13)**

| | **2018/2019** | **2019/2020** | **2020/2021** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe | 7 | 9 | 4 |
| Ysgol Gyfun Gŵyr | 8 | 9 | 9 |
| **Cyfanswm** | **15** | **18** | **13** |

**Myfyrwyr sy'n Mynychu Darpariaeth 6ed Dosbarth cyfrwng Cymraeg**

| | 2018/2019 | | 2019/2020 | | 2020/2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe | 64 | 48 | 63 | 60 | 66 | 56 |
| Ysgol Gyfun Gŵyr | 89 | 72 | 95 | 82 | 93 | 98 |
| **Cyfanswm** | **153** | **120** | **158** | **142** | **159** | **154** |

Disgwyliwn i'r nifer sy'n cael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg barhau i gynyddu gyda rhagamcan y bydd dros 15% (12% ar hyn o bryd) yn gwneud hynny erbyn 2032. Byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion uwchradd a'n partneriaid ôl-16 i gynyddu'r niferoedd a ddewisodd lwybr cyfrwng Cymraeg ar ôl eu TGAU.

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**

Mae Amcan 4 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yn nifer a chanran y personau ym Mlwyddyn 10 a hŷn yn ein hysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i ni hefyd nodi sut y byddwn yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y cynllun yn nifer a chanran y personau ym Mlwyddyn 10 a hŷn yn ein hysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg, sut byddwn yn cefnogi'r ddarpariaeth barhaus o addysg cyfrwng Cymraeg i bersonau ym Mlwyddyn 10 ac uwch trwy weithio ar y cyd ag ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) eraill os oes angen a sut y byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'n SAB (os oes angen) i gydlynu darpariaeth y Gymraeg fel pwnc i bersonau ym Mlwyddyn 10 ac uwch yn ein hysgolion uwchradd a gynhelir.

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn a sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Gweithio gyda phartneriaid ar draws y Bartneriaeth, ein hysgolion a'n colegau ynghyd â phartneriaid ledled y ddinas a'r sir i dynnu sylw at fanteision y Gymraeg gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, profiad gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli mewn sefydliadau a gweithleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n gwneud y mwyaf o botensial siaradwyr dwyieithog.
2. Comisiynu adolygiad llawn o'r cynnig ôl-16 yn Abertawe i fapio'r ddarpariaeth gyfredol yn ein hysgolion a'n colegau a nodi cyfleoedd ar gyfer twf pellach.
3. Fel rhan o'r adolygiad, gweithio gyda Gyrfa Cymru i nodi i ble mae myfyrwyr yn mynd ar ôl cwblhau TGAU yn ein lleoliadau cyfrwng Cymraeg er mwyn dysgu gwersi ac i roi gweithredoedd ar waith i annog mwy i ddilyn llwybr ôl-16 cyfrwng Cymraeg.
4. Creu gweithgor traws-sector i gyflawni cynllun gweithredu clir yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad ôl-16.
5. Fel rhan o’r Llwyfan Digidol, cefnogi a hyrwyddo dwyieithrwydd ac amlieithrwydd fel sgiliau ar gyfer cyfleoedd gyrfa lleol, rhanbarthol a byd-eang ynghyd â chysylltu â’r Fargen Ddinesig gan gynnwys cefnogi dilyniant disgyblion hyd yn oed os nad y Gymraeg yw’r iaith lafar gartref.
6. Gweithio gyda'n hysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, darparwyr allanol a Llywodraeth Cymru ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.
7. Cefnogi ein hysgolion cyfrwng Saesneg i archwilio cyfleoedd i ehangu eu cynnig Cymraeg gan gynnwys ystyried sefydlu a gweithredu un continwwm o ddysgu Cymraeg gan Lywodraeth Cymru.

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

8. Sicrhau bod y gallu cynyddol yn ein hysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi'r niferoedd cynyddol sy'n dod trwy ein hysgolion cynradd i astudio ar gyfer cymwysterau a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.
9. Archwilio cyfleoedd a gynigir gan e-sgol, menter ddysgu gyfunol i ddarparu cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau uniongyrchol; amser real a rhyngweithiol, er mwyn gwella ein cynnig cyfrwng Cymraeg ymhellach.
10. Ymgysylltu â byrddau arholi i gynrychioli'r awydd am ystod ehangach o gyrsiau a chymwysterau (yn enwedig o ran cyfleoedd dysgu galwedigaethol) a ddarperir yn y Gymraeg i sicrhau cydraddoldeb â'r ystod sydd ar gael yn Saesneg.
11. Anelu at weld dros 15% o'n dysgwyr yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn TGAU.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu’r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Abertawe
- Partneriaeth
- Ysgolion Abertawe
- Partneriaid AB ac AU
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Byrddau arholi
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Amcan 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**

Mae Amcan 5 yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi sut y byddwn yn gwella sgiliau iaith Gymraeg pobl sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol a gynhaliwn er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae gweithio gyda phartneriaid ar draws asiantaethau yn lleol yn Abertawe a thu hwnt yn allweddol i lwyddiant ein strategaeth. Mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, sef Mudiad Meithrin, yr Urdd, Menter Iaith Abertawe, Rhagoriaith, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Cymraeg i Blant. Byddwn yn gwella'r berthynas waith rhwng ein hysgolion a'n partneriaid i gyflawni'r deilliant hwn a sicrhau bod dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Yn y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Datblygu a lansio Gwobrau Shwmae blynyddol gyda'r nod o ddathlu cyfraniadau unigolion a grwpiau wrth hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn ysgolion a chymunedau ynghyd â chyflawniadau dysgwyr Cymraeg.
2. Cefnogi holl ysgolion Abertawe i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc gan ddefnyddio'r Siarter Iaith. Byddwn yn cefnogi pob ysgol i gael mynediad at y Siarter Iaith ac i ddangos gwelliant yn ystod oes ein cynllun.
3. Cefnogi pob ysgol cyfrwng Cymraeg i gyrraedd, fel isafswm, gwobr Arian y Siarter Iaith.
4. Cefnogi pob ysgol cyfrwng Saesneg i gyrraedd, fel isafswm, gwobr Efydd y Siarter Iaith.
5. Sefydlu banc o adnoddau ar-lein i gynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm newydd ynghyd ag adnoddau i gyflawni y Fframwaith Siarter Iaith.
6. Sicrhau bod adnoddau ar gael i hyrwyddo gwerth a buddion dwyieithrwydd ymhellach er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddod yn siaradwyr hyderus o'r ddwy iaith swyddogol yng Nghymru.
7. Ymgymryd â mapio diweddar o'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol ar y cyd â darparwyr eraill i nodi bylchau a thanategu trafodaethau sy'n ymwneud â chydweithio/partneriaethau newydd er mwyn cynyddu/ehangu'r ddarpariaeth i ateb y galw. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r Llwyfan Digidol, i roi map clir i'r cyhoedd o'r cynnig cyfredol ledled y ddinas a'r sir.
8. Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â ffocws gyda phobl ifanc ynghylch pa gyfleoedd dysgu a chymdeithasu Cymraeg yr hoffent eu gweld fwyaf.
9. Archwilio a chynyddu cwmpas ar gyfer cydweithredu o fewn yr awdurdod lleol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a sefydliadau partner gan gynnwys Menter

Iaith Abertawe a'r Urdd i uwchraddio'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ledled y ddinas a'r sir. Bydd hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer cael gafael ar gyllid priodol i sicrhau partneriaeth gynaliadwy gyda Menter Iaith Abertawe.

10. Ymgymryd ag ymchwil gyda phobl ifanc ac oedolion sydd wedi cyflawni rhuglder yn y Gymraeg yn flaenorol ond sydd wedi colli hyder i'w defnyddio er mwyn deall yn well a mynd i'r afael â'r her o gadw iaith y tu hwnt i addysg statudol.
11. Archwilio cyfleoedd gyda'n partneriaid i ddatblygu darpariaeth gwyliau pellach i gynnal a gwella sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd trwy Raglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol Llywodraeth Cymru.
12. Fel rhan o Gynlluniau Iaith ysgolion, nodi a gweithredu ystod eang o gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
13. Wrth i Abertawe ddatblygu ei Strategaeth Hybu’r Gymraeg 2022-2027 nesaf byddwn yn archwilio cyfleoedd y tu hwnt i'n cymunedau ysgol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ar draws cymunedau amrywiol Abertawe.

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

14. Darparu cefnogaeth i ysgolion yn y defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion sydd â chyfleoedd dysgu proffesiynol Cymraeg, Llythrennedd a Chyfathrebu o ansawdd uchel gan gynnwys cefnogaeth bwrpasol ar gyfer ysgolion/clystyrau unigol a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu ysgol-i-ysgol a phartneriaethau cymheiriaid fel sy'n briodol.
15. Gweithio gyda’r Bartneriaeth i ddarparu cefnogaeth ddynodedig i bob ysgol ar gyfer cynnydd gyda’r Siarter Iaith a Cymraeg Campus gan ganolbwyntio ar hyrwyddo, cefnogi, herio ac achredu holl ysgolion Abertawe i wneud cynnydd gyda Gwobrau Siarter Iaith a Cymraeg Campus.
16. Cefnogi pob ysgol cyfrwng Cymraeg i gyrraedd gwobr Aur y Siarter Iaith.
17. Cefnogi pob ysgol cyfrwng Saesneg i gyrraedd gwobr Arian y Siarter Iaith.
18. Gwerthuso effaith y Siarter Iaith a Cymraeg Campus i gefnogi mireinio'r cynlluniau dros amser, yn enwedig ochr yn ochr â gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu’r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Abertawe
- Partneriaeth
- Ysgolion Abertawe
- Menter Iaith Abertawe
- Urdd Gobaith Cymru
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewis Sant
- Prifysgol Abertawe

# Amcan 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**
Mae Amcan 6 yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi sut y byddwn yn defnyddio canfyddiadau ein hadolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i wella darpariaeth iaith Gymraeg ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn y sector anghenion dysgu ychwanegol.

Yn Abertawe, mae lefel gyfredol y galw am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (ALP) drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel. Fodd bynnag, mae patrwm symud o cyfrwng Cymraeg i cyfrwng Saesneg trwy ddewis rhieni wedi'i nodi yn y sector cynradd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n dod i'r amlwg.

Mae un Cyfleuster Addysgu Arbenigol Cymraeg (STF) yn Ysgol Gyfun Gŵyr ar gyfer Oedi Dysgu Cyffredinol a sylfaen adnoddau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe sy'n darparu cefnogaeth allgymorth ar gyfer ystod o anghenion.

Mae'r sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn Abertawe fel a ganlyn:

| **Mae nifer yr achosion o ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn is nag ar gyfer ysgolion Abertawe yn gyffredinol:** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2021** | **Pob ysgol** | **% poblogaeth disgyblion** | **Ysgolion cyfrwng Cymraeg** | **% poblogaeth disgyblion** |
| Gweithredu gan yr Ysgol a mwy | 2603 | 7.20 | 245 | 4.69 |
| â Datganiad | 1617 | 4.47 | 64 | 1.22 |

Trwy gydol oes y Cynllun byddwn yn:

- Parhau i adolygu lefel y galw a'r ALP sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn flynyddol.
- Parhau i adeiladu capasiti yn ein hysgolion prif ffrwd, yn unol â gweledigaeth gynhwysol Deddf ALNET.
- Datblygu gwybodaeth ein hysgolion wrth nodi ADY a darparu ALP ar lefel leol, yn yr iaith o'u dewis.
- Defnyddio dyletswyddau strategol ehangach gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 os nad yw'r argaeledd ar gyfer ALP yn y Gymraeg yn ddigonol.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Arwain gwaith clwstwr parhaus, cyngor a chefnogaeth gan staff arbenigol sy'n siarad Cymraeg a chysylltiadau ag adnoddau dwyieithog rhanbarthol/cenedlaethol i gefnogi ysgolion i nodi ADY a darparu ALP.
2. Cyfuno adnoddau a sefydlu rhwydweithiau cenedlaethol er mwyn sicrhau y gellir cyrchu ALP cyfrwng Cymraeg, yn enwedig lle mae nifer y dysgwyr sydd angen y ddarpariaeth hon yn isel iawn.
3. Cynnal dadansoddiad manwl o'r achosion sy'n dylanwadu ar symudiadau o'r cyfrwng Cymraeg i'r cyfrwng Saesneg yn y sector cynradd.
4. Sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei hadolygu fel rhan o adolygiad ehangach o ddarpariaeth arbenigol yn Abertawe.
5. Parhau i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, e.e. Ysgolion cyfeillgar ASD.
6. Nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff arbenigol sy'n siarad Cymraeg.
7. Archwilio cyfleoedd i gefnogi Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant eraill nad ydynt yn cael eu cynnal.

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

8. Parhau i gynnig darpariaeth arbenigol i ddysgwyr yn yr iaith o'u dewis, yn unol â Deddf ALNET.
9. Datblygu model ymyrraeth gynnar iawn, gan gynorthwyo dysgwyr i aros mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bo hynny'n briodol.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu’r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Abertawe
- Partneriaeth
- Ysgolion Abertawe
- Gwasanaethau'r GIG
- Gwasanaethau Ehangach y Cyngor

# Amcan 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

**Yr hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud ...**

Mae Amcan 7 yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi ein hymrwymiad i nodi'r gweithlu sydd ei angen arnom i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y Cynllun yn unol â thargedau'r Cynllun, a chyfrifo unrhyw ddiffyg a ragwelir yn ein gweithlu.

Rhaid i ni hefyd nodi ein hymrwymiad i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill trwy arfer ein swyddogaethau ar y cyd wrth gynllunio a darparu cefnogaeth i wella sgiliau iaith Gymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu ysgolion mewn ysgolion a gynhelir yn ein hardal ac i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ystyried yn ystod ystyriaethau ynghylch safonau addysgol cyfrwng Cymraeg ysgolion a gynhelir yn ein hardal.

Rydym wedi defnyddio'r data a gasglwyd am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yng Nghyfrifiad y Gweithlu Ysgolion i nodi bylchau sgiliau cyfredol a lle mae'r bylchau yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Bydd newidiadau yn faint o Gymraeg a addysgir yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg yn effeithio ar anghenion sgiliau staff a'r gefnogaeth ieithyddol sy'n ofynnol. Mae'r siart isod yn rhoi syniad o lefelau gallu.

Er bod hyfedredd sylfweddol yn y Gymraeg ymhlith gweithlu'r ysgol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd staff i gyd yn hyderus wrth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod nifer y staff sy'n ofynnol yn y dyfodol i gyflawni'r dyhead cenedlaethol ar gyfer twf parhaus mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dipyn o her.

**Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion 2020: Gallu yn y Gymraeg**

| Pob ysgol | Cyfrif pennau | | | Canran cyfrif pennau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel** | **Athrawon** | **Cynorthwywyr Addysgu** | **Cyfanswm** | **Athrawon** | **Cynorthwywyr Addysgu** | **Cyfanswm** |
| Lefel Hyfedredd | 364 | 213 | 577 | 18.2% | 8.9% | 13.2% |
| Lefel Uwch | 77 | 37 | 114 | 3.9% | 1.5% | 2.6% |
| Lefel Canolradd | 176 | 58 | 234 | 9.1% | 2.1% | 5.4% |
| Lefel Sylfaen | 416 | 192 | 608 | 21.1% | 7.7% | 13.9% |
| Lefel Mynediad | 509 | 750 | 1259 | 26.0% | 31.3% | 28.9% |
| Dim sgiliau iaith | 424 | 1139 | 1563 | 21.5% | 48.3% | 35.9% |
| Ni chafwyd y wybodaeth eto | 2 | 5 | 7 | 0.1% | 0.2% | 0.2% |
| **Cyfanswm terfynol** | **1968** | **2394** | **4362** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

| Cyfrwng Saesneg yn unig | Cyfrif pennau | | | Canran cyfrif pennau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm |
| Lefel Hyfedredd | 109 | 38 | 147 | 6.4% | 1.7% | 3.8% |
| Lefel Uwch | 70 | 20 | 90 | 4.1% | 0.9% | 2.3% |
| Lefel Canolradd | 176 | 52 | 228 | 10.3% | 2.4% | 5.8% |
| Lefel Sylfaen | 416 | 192 | 608 | 24.4% | 8.8% | 15.6% |
| Lefel Mynediad | 509 | 750 | 1259 | 29.8% | 34.2% | 32.3% |
| Dim sgiliau iaith | 424 | 1135 | 1559 | 24.9% | 51.8% | 40.0% |
| Ni chafwyd y wybodaeth eto | 2 | 5 | 7 | 0.1% | 0.2% | 0.2% |
| **Cyfanswm terfynol** | **1706** | **2192** | **3898** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

| Cyfrwng Cymraeg yn unig | Cyfrif pennau | | | Canran cyfrif pennau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm |
| Lefel Hyfedredd | 255 | 175 | 430 | 97.3% | 86.6% | 92.7% |
| Lefel Uwch | 7 | 17 | 24 | 2.7% | 8.4% | 5.2% |
| Lefel Canolradd | | 6 | 6 | 0.0% | 3.0% | 1.3% |
| Lefel Sylfaen | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Lefel Mynediad | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dim sgiliau iaith | | 4 | 4 | 0.0% | 2.0% | 0.9% |
| Ni chafwyd y wybodaeth eto | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| **Cyfanswm terfynol** | **262** | **202** | **464** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

**Staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd (SWAC 2021)**

| Ysgol | Athrawon | | Cymorth | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | FTE | Nifer | FTE |
| YGG Bryniago | 10 | 8.92 | 13 | 9.33 |
| YGG Bryn-y-Mor | 15 | 13.20 | 8 | 6.41 |
| YGG Gellionnen | 11 | 10.80 | 11 | 9.58 |
| YGG Llwynderw | 17 | 13.09 | 14 | 11.93 |
| YGG Lonlas | 22 | 19.61 | 25 | 20.09 |
| YGG Pontybrenin | 30 | 25.37 | 24 | 21.30 |
| YGG Tan-y-lan | 10 | 8.16 | 13 | 10.31 |
| YGG Tirdeunaw | 18 | 17.20 | 15 | 9.15 |
| YGG Y Cwm | 7 | 4.98 | 8 | 5.98 |
| YGG Y Login Fach | 13 | 10.25 | 9 | 7.25 |

Mae twf sylweddol yn y gweithlu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol er mwyn i Abertawe lwyddo i sicrhau twf siaradwyr Cymraeg trwy addysg yn ein hysgolion a chyfleoedd dysgu ehangach.

Er mwyn nodi targed cychwynnol ar gyfer yr hyn y bydd ei angen arnom yn ystod oes y cynllun, rydym yn mesur y nifer tebygol o staff sydd eu hangen ar gyfer 3 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg arall. At y diben hwn credwn y byddai angen **40 aelod o staff addysgu a 40 aelod o staff cymorth** ychwanegol arnom. Pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei darparu ar draws 3 ysgol newydd gallai hyn olygu'r angen am 3 phennaeth newydd.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun byddwn yn gwneud rhywfaint o fodelu pellach gyda'n hysgolion uwchradd, ein cydweithwyr rhanbarthol a chenedlaethol i fodelu'r gofyniad staffio wrth i'r carfannau cynyddol hyn symud trwy'r system.

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn a chynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pum mlynedd gyntaf byddwn yn:

1. Cynnal archwiliad gweithlu canolog i adolygu staffio presennol ynghyd ag ystyried swyddi gwag staff addysgu a chymorth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gefnogi recriwtio a chadw staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg gan gynnwys staff addysgu a dysgu cwbl rugl.
2. Dadansoddi canlyniad data cyfrifiad gweithlu ysgolion a ffynonellau tystiolaeth ansoddol i gefnogi cynllunio'r gweithlu i lywio dyluniad rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion ein gweithlu lleol sy'n benodol i wella'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol.
3. Rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion ar sut i adlewyrchu sgiliau iaith Gymraeg staff yn gywir.
4. Bydd ein Swyddogion Datblygu Cymraeg mewn Addysg yn darparu cefnogaeth ôl-gwrs i ymarferwyr sydd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Sabothol. Byddwn hefyd yn gweithredu rhaglen fentora Hyrwyddwyr Iaith lle, ar ôl cwblhau'r Cynllun Sabothol, bydd yr ymarferwyr hyn yn dod yn Hyrwyddwyr Iaith ac yn mentora ymarferwyr eraill i gynyddu eu hyder i siarad Cymraeg, addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu ddysgu'r Gymraeg fel pwnc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a rhannu arfer da.
5. Byddwn yn sicrhau bod ysgolion yn targedu datblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn cynlluniau datblygu ysgol yng nghyd-destun gwella safonau er mwyn sicrhau bod ffocws cryf ar flaenoriaethu datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cynnwys gwella sgiliau iaith.
6. Mae Cynghorwyr Gwella Ysgolion (SIAs) yn monitro Cynlluniau Datblygu Ysgol a Chynlluniau Iaith Newydd i sicrhau bod arweinwyr yn cynllunio i wella sgiliau ieithyddol y gweithlu. Bydd canlyniadau'r gweithlu hefyd yn cael eu rhannu ag SIAs i gynorthwyo gyda monitro.
7. Sicrhau bod pob tîm arweinyddiaeth ysgol a llywodraethwr yn cael gwybod am y CSCA a'r angen am sgiliau dwyieithog a bod monitro uwchsgilio eu staff yn allweddol fel rhan o'u hyfforddiant llywodraethwr a DPP.

8. Annog llywodraethwyr pob ysgol i gynnwys adroddiad ar y Gymraeg yn eu hadroddiad blynyddol i rieni a chynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion.
9. Cefnogi a darparu cyngor i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion ar benodi a datblygu staff.
10. Sicrhau bod staff o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ceisio am raglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol perthnasol a chyfleoedd dysgu proffesiynol gan gynnwys y Rhaglen Darpar Bennaeth sy'n arwain at gymhwyster NPQH.
11. Archwilio cwmpas i ddatblygu ymgyrch hyrwyddo a recriwtio leol i dargedu'r angen am amrywiaeth bellach ar draws y gweithlu addysgu a dysgu, yn enwedig yn y gweithlu sy'n siarad Cymraeg i gefnogi arallgyfeirio'r defnydd tymor hir o’r Gymraeg a sicrhau bod pob teulu a disgybl yn teimlo bod eu hysgol yn adlewyrchu eu cymuned leol.
12. Annog a monitro'r defnydd o gwrs newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan staff addysgu fel llwybr arall ar gyfer datblygu hyder iaith o fewn y gweithlu addysgu a dysgu.
13. Gweithio gyda Mudiad Meithrin trwy'r Cynllun Hyfforddiant Cenedlaethol (prentisiaeth) a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam sy'n cynnig ystod lawn o gymwysterau Gofal Plant, Dysgu Chwarae a Datblygiad Plant cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-14/ôl-16.

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

14. Ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr pob ysgol gynnwys adroddiad ar y Gymraeg i ddathlu a myfyrio ar ddefnydd a datblygiad gwell sgiliau Cymraeg disgyblion a chyfleoedd caffael iaith â ffocws eu staff addysgu a dysgu yn eu hadroddiad blynyddol i rieni.
15. Sicrhau bod ysgolion yn gosod ac yn adrodd ar dargedau datblygu sgiliau Cymraeg o fewn cynlluniau datblygu ysgol yng nghyd-destun gwella safonau i sicrhau bod ffocws cryf ar flaenoriaethu datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cynnwys gwella sgiliau ieithyddol.
16. Targedu athrawon a staff cymorth ym mhob un o brif leoliadau cyfrwng Saesneg y sir i fynychu cyrsiau dwyieithog/iaith achlysurol. Yn ogystal, byddwn yn anelu at gael un aelod o staff o bob ysgol yn mynychu'r cwrs sabothol yn ystod oes y Cynllun.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu’r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Abertawe
- Ysgolion Abertawe
- Darparwyr AGA gan gynnwys - Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Y Brifysgol Agored, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Llywodraeth Cymru
- Mudiad Meithrin

# Crynodeb

Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe yn glir, yn gadarn ac yn uchelgeisiol. Mae'r gwaith sydd i'w wneud yn amlochrog ac yn aml-haenog, a'r cam nesaf ar ôl cymeradwyo'r strategaeth fydd datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Bydd defnydd clir o ddata yn ein galluogi i osod targedau penodol, a fydd yn caniatáu inni fesur effaith a llwyddiant ein gwaith.

# Gwybodaeth gefndir

Poblogaeth a Nodweddion Ieithyddol

**Tuedd a Rhagolygon Poblogaeth Disgyblion**

Ym mis Ebrill 2021, roedd 32611 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn (FTE) (ac eithrio’r meithrin) ym mhob ysgol yn Abertawe, gellir rhannu'r rhain fel a ganlyn:


| Cofrestrau Ysgol | Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg | Nifer y myfyrwyr yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Canran y myfyrwyr yn y ffrydiau cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 18362 | 2703 | **14.72%** |
| Bl7-11 | 12776 | 1671 | **13.08%** |
| Bl12-Bl13 | 1473 | 313 | **21.25%** |
| **Cyfanswm** | **32611** | **4687** | **14.37%** |

**Nifer y Genedigaethau a Gofrestrwyd yn Abertawe 2007-2020**

Mae'r gyfradd genedigaethau yn Abertawe wedi gweld gostyngiad dramatig dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn y tymor hwy, mae hyn yn debygol o arwain at leoedd gwag ar draws y stoc ysgol yn Abertawe. Wrth i ni weithio tuag at gynyddu canran y disgyblion sy'n mynd i Addysg Cyfrwng Cymraeg mae'n bwysig ein bod yn ystyried effaith y gyfradd genedigaethau.

Bu cwymp sylweddol pellach yn 2020, ond o ystyried y pandemig COVID-19, byddwn yn trin y data hwn yn ofalus gan ei fod yn ostyngiad mor amlwg o ffigurau blaenorol a llinell duedd.

| Blwyddyn | Genedigaethau |
|---|---|
| **2007** | 2,668 |
| **2008** | 2,634 |
| **2009** | 2,488 |
| **2010** | 2,686 |
| **2011** | 2,560 |
| **2012** | 2,536 |
| **2013** | 2,319 |
| **2014** | 2,356 |
| **2015** | 2,369 |
| **2016** | 2,325 |
| **2017** | 2,236 |
| **2018** | 2,229 |
| **2019** | 2,165 |
| **2020** | 1,962 |


Annual Swansea Births Notified to the Management Systems Team
3000
2500
2000
1500
1000
500
0
2668
2634
2488
2686
2560
2536
2319
2356
2369
2325
2236
2229
2165
1962
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020

## Amcanestyniadau disgyblion

PUPIL PROJECTION FOR:

**Primary Summary**

| | |
|---|---|
| Capacity at Jan 21 (Pupil Places) = | **20926** |
| Admission Number (Sept 21) = | **3029** |
| Admission Number (Sept 22) = | **3026** |
| Number of Full Time STF Pupils = | **294** |
| Surplus Capacity = | **2891** |
| Reception Uptake Factor (3 Year Avg.) = | **108.01%** |

| Year | Jan. 21 | Sept. 21 | Sept. 22 | Sept. 23 | Sept. 24 | Sept. 25 | Sept. 26 | Sept. 27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N1 (Rising 3s) | 553 | | | | | | | |
| N2 | 2209 | 2236 | 2177 | 2123 | 2178 | 2160 | 2152 | 2162 |
| R | 2465 | 2386 | 2327 | 2259 | 2206 | 2261 | 2240 | 2233 |
| Y1 | 2567 | 2465 | 2386 | 2327 | 2259 | 2206 | 2261 | 2240 |
| Y2 | 2517 | 2567 | 2465 | 2386 | 2327 | 2259 | 2206 | 2261 |
| Y3 | 2554 | 2517 | 2567 | 2465 | 2386 | 2327 | 2259 | 2206 |
| Y4 | 2789 | 2554 | 2517 | 2567 | 2465 | 2386 | 2327 | 2259 |
| Y5 | 2779 | 2789 | 2554 | 2517 | 2567 | 2465 | 2386 | 2327 |
| Y6 | 2658 | 2779 | 2789 | 2554 | 2517 | 2567 | 2465 | 2386 |
| School Total: | 21091 | 20293 | 19782 | 19198 | 18905 | 18631 | 18296 | 18074 |
| Full Time Total: | 18329 | 18057 | 17605 | 17075 | 16727 | 16471 | 16144 | 15912 |
| FT excl. STF Pupils | 18035 | 17763 | 17311 | 16781 | 16433 | 16177 | 15850 | 15618 |
| F.T.E. Total: | 19710 | 19175 | 18693.5 | 18136.5 | 17816 | 17551 | 17220 | 16993 |
| Total Infant#: | 7549 | 7418 | 7178 | 6972 | 6792 | 6726 | 6707 | 6734 |
| Total Junior: | 10780 | 10639 | 10427 | 10103 | 9935 | 9745 | 9437 | 9178 |

| | Sep-20 | Sep-19 | Sep-18 |
|---|---|---|---|
| Nursery Intake: | 1959 | 2339 | 2414 |

# Excludes Nursery

PUPIL PROJECTION FOR:

**Primary Welsh Medium School Summary**

| | |
|---|---|
| Capacity at Jan 21 (Pupil Places) = | **3092** |
| Admission Number (Sept 21) = | **495** |
| Admission Number (Sept 22) = | **495** |
| Number of Full Time STF Pupils = | **0** |
| Surplus Capacity = | **373** |
| Reception Uptake Factor (3 Year Avg.) = | **108.63%** |

| Year | Jan. 21 | Sept. 21 | Sept. 22 | Sept. 23 | Sept. 24 | Sept. 25 | Sept. 26 | Sept. 27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N1 (Rising 3s) | 105 | | | | | | | |
| N2 | 336 | 355 | 349 | 341 | 349 | 348 | 345 | 348 |
| R | 379 | 365 | 365 | 356 | 348 | 356 | 355 | 352 |
| Y1 | 388 | 379 | 365 | 365 | 356 | 348 | 356 | 355 |
| Y2 | 380 | 388 | 379 | 365 | 365 | 356 | 348 | 356 |
| Y3 | 384 | 380 | 388 | 379 | 365 | 365 | 356 | 348 |
| Y4 | 417 | 384 | 380 | 388 | 379 | 365 | 365 | 356 |
| Y5 | 380 | 417 | 384 | 380 | 388 | 379 | 365 | 365 |
| Y6 | 391 | 380 | 417 | 384 | 380 | 388 | 379 | 365 |
| School Total: | 3160 | 3048 | 3027 | 2958 | 2930 | 2905 | 2869 | 2845 |
| Full Time Total: | 2719 | 2693 | 2678 | 2617 | 2581 | 2557 | 2524 | 2497 |
| FT excl. STF Pupils | 2719 | 2693 | 2678 | 2617 | 2581 | 2557 | 2524 | 2497 |
| F.T.E. Total: | 2939.5 | 2870.5 | 2852.5 | 2787.5 | 2755.5 | 2731 | 2696.5 | 2671 |
| Total Infant#: | 1147 | 1132 | 1109 | 1086 | 1069 | 1060 | 1059 | 1063 |
| Total Junior: | 1572 | 1561 | 1569 | 1531 | 1512 | 1497 | 1465 | 1434 |

| | Sep-20 | Sep-19 | Sep-18 |
|---|---|---|---|
| Nursery Intake: | 323 | 374 | 370 |

# Excludes Nursery

January 2021

PUPIL PROJECTION FOR:

**Secondary Summary**

08/04/21

| | |
|---|---|
| Capacity at Jan 21 (Pupil Places) = | **15734** |
| Admission Number (Sept. 21) = | **2814** |
| Admission Number (from Sept. 22) = | **2824** |
| Number of Full Time STF pupils = | **252** |
| Surplus Capacity = | **1760** |

| Year | Jan-21 | Sep-21 | Sep-22 | Sep-23 | Sep-24 | Sep-25 | Sep-26 | Sep-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y7 | 2555 | 2543 | 2657 | 2668 | 2486 | 2481 | 2514 | 2409 |
| Y8 | 2719 | 2555 | 2543 | 2657 | 2668 | 2486 | 2481 | 2514 |
| Y9 | 2583 | 2719 | 2555 | 2543 | 2657 | 2668 | 2486 | 2481 |
| Y10 | 2479 | 2583 | 2719 | 2555 | 2543 | 2657 | 2668 | 2486 |
| Y11 | 2435 | 2479 | 2583 | 2719 | 2555 | 2543 | 2657 | 2668 |
| Totals (11-16): | 12771 | 12879 | 13057 | 13142 | 12909 | 12835 | 12806 | 12558 |
| Y12 | 819 | 778 | 796 | 794 | 839 | 802 | 828 | 828 |
| Y13 | 636 | 678 | 647 | 665 | 665 | 707 | 674 | 696 |
| Totals (Post 16): | 1455 | 1456 | 1443 | 1459 | 1504 | 1509 | 1502 | 1524 |
| School Total: | 14226 | 14335 | 14500 | 14601 | 14413 | 14344 | 14308 | 14082 |
| School Total excl. STF pupils: | 13974 | 14083 | 14248 | 14349 | 14161 | 14092 | 14056 | 13830 |

January 2020

PUPIL PROJECTION FOR:


**Secondary Welsh Medium School Summary**

08/04/21

| | |
|---|---|
| Capacity at Jan 21 (Pupil Places) = | **2312** |
| Admission Number (Sept. 21) = | **378** |
| Admission Number (from Sept. 22) = | **378** |
| Number of Full Time STF pupils = | **8** |
| Surplus Capacity = | **328** |

| Year | Jan-21 | Sep-21 | Sep-22 | Sep-23 | Sep-24 | Sep-25 | Sep-26 | Sep-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y7 | 356 | 372 | 375 | 409 | 380 | 373 | 387 | 371 |
| Y8 | 378 | 356 | 372 | 375 | 409 | 380 | 373 | 387 |
| Y9 | 320 | 378 | 356 | 372 | 375 | 409 | 380 | 373 |
| Y10 | 327 | 320 | 378 | 356 | 372 | 375 | 409 | 380 |
| Y11 | 296 | 327 | 320 | 378 | 356 | 372 | 375 | 409 |
| Totals (11-16): | 1677 | 1753 | 1801 | 1890 | 1892 | 1909 | 1924 | 1920 |
| Y12 | 161 | 176 | 197 | 190 | 226 | 211 | 221 | 223 |
| Y13 | 154 | 149 | 163 | 183 | 176 | 210 | 195 | 204 |
| Totals (Post 16): | 315 | 325 | 360 | 373 | 402 | 421 | 416 | 427 |
| School Total: | 1992 | 2078 | 2161 | 2263 | 2294 | 2330 | 2340 | 2347 |
| School Total excl. STF pupils: | 1984 | 2070 | 2153 | 2255 | 2286 | 2322 | 2332 | 2339 |

Bu gostyngiad amlwg yn yr un modd yn nifer y disgyblion yn 2020 a adlewyrchir yn yr amcanestyniadau disgyblion diweddaraf sydd ar gael a ddangosir yn y graff isod. O ystyried pandemig COVID-19 byddwn eto'n trin y data hwn yn ofalus gan ei fod yn anghyson â rhagamcanion a thueddiadau blaenorol. Ar ben hynny, mae effaith tymor hwy'r gwelliant sylweddol pellach o leoedd a chyfleusterau cyfrwng Cymraeg ar ganfyddiadau a dewisiadau rhieni i'w gweld o hyd.




## Y gallu i siarad Cymraeg

Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 11.4% o boblogaeth Abertawe yn gallu siarad Cymraeg; mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Er mai'r Cyfrifiad yw'r ffynhonnell wybodaeth allweddol am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg ac mae hefyd yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Mae amcangyfrifon APS o allu'r Gymraeg yn hanesyddol uwch na'r rhai a gynhyrchwyd gan y Cyfrifiad. Mae'n galonogol nodi'r duedd gynyddol gyson ar gyfer Abertawe (23.5% erbyn mis Rhagfyr 2020) sy'n cynrychioli sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

Dros y 10-15 mlynedd diwethaf rydym wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn sylweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein dyhead yn 2050, mae angen i ni wella nifer y dysgwyr sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Darpariaeth Gymraeg Cyfredol

## Y Blynyddoedd Cynnar

Mae amlygiad cynnar plant i'r Gymraeg yn ffactor pwysig wrth ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, ac mae'n allweddol yng nghyd-destun ein targed i gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn gyfle i fesur y galw yn y maes hwn ac yng nghyd-destun darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Disgwylir i asesiad newydd gael ei gwblhau yn 2022 a fydd yn darparu data clir ar y ddarpariaeth yn Abertawe. Yn yr un modd â darpariaeth Addysg statudol mae'n bwysig ein bod yn cefnogi'r sector i gynyddu eu cynnig iaith a chynyddu nifer y rhieni sy'n dewis darpariaeth Gymraeg.

Yn 2017 nododd 55% o'r holl rieni a ymatebodd eu bod yn dal uchelgais i'w plentyn/plant fod yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Er bod rhai achosion o rieni yn nodi nad oeddent yn cyrchu gofal plant ffurfiol oherwydd absenoldeb darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu am nad oeddent yn gallu dod o hyd i ddarpariaeth o'r fath, nid oedd problem o'r fath yn amlwg yn eang.

Ar hyn o bryd mae un lleoliad Dechrau’n Deg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe, saith Cylch Mudiad Meithrin a naw grŵp Ti a Fi.

Mae pob un o'r 10 ysgol gynradd Gymraeg yn darparu cynnig meithrinfa ran-amser. Fel y mae ar hyn o bryd mae mwy o gyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyn-ysgol mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg ac felly gall hyn effeithio ar y penderfyniadau a wneir gan rieni yn gynnar yn natblygiad eu plentyn oherwydd pellter neu agosrwydd eu hysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg.

Yn Abertawe mae **pob** ysgol gynradd yn darparu addysg feithrin ran-amser i rieni a hoffai i'w plentyn fynd i ddosbarth meithrin. Polisi'r awdurdod lleol yw darparu addysg feithrin ran-amser yn unig. Bydd lle meithrin ar gael i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed.

## Darpariaeth Mudiad Meithrin

| Cylch Meithrin (CM) | Ti a Fi yn gysylltiedig? |
|---|---|
| CM Clydach<br>Ysgol Gellionnen<br>Clydach<br>SA6 5HE | Nac oes |
| CM Meini Bach<br>Ysgol Y Cwm<br>Heol Jersey<br>Bonymaen<br>SA1 7DL | Oes |
| CM Treboeth a Tirdeunaw<br>Canolfan Gymunedol De Penlan<br>Heol Frank<br>Penlan<br>SA5 7AH | Oes |
| CM Parcywerin<br>Pafiliwn Bowlio Parc y Werin<br>Gorseinon<br>SA4 4UX | Oes |
| CM Pontarddulais<br>Bont Elim Church<br>Alltiago Road<br>Pontarddulais<br>SA4 8HU | Oes |
| CM Sgeti<br>Canolfan Gymunedol<br>Brynmill<br>Heol St Alban<br>Brynmill<br>SA2 0BP | Oes |
| CM Y Mwmbwls<br>Neuadd Vivian<br>Ffordd Mwmbwls<br>SA3 5LT | Oes |



**Cylchoedd Ti a Fi (sydd ddim ynghlwm â Chylch Meithrin)**

Cylch Ti a Fi Penllergaer
Neuadd Llywellyn
Heol Abertawe
Penllergaer
SA4 9AQ

Cylch Ti a Fi Clydach
Neuadd y Nant
Heol y Nant
Clydach
SA6 5HB

Cylch Ti a Fi Waunarlwydd
Neuadd Gymunedol Waunarlwydd
Heol Victoria
Waunarlwydd
SA5 6SY

**Ysgolion Cyfrwng Cymraeg: Manylion fel y'u cyhoeddwyd yn y llyfryn Gwybodaeth i Rieni**

| Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y sefydliad | Ystod oedran | Math | Nifer ar y gofrestr Ebrill 2021 | Rhif MynediadSe Medi 2021 | Cyfanswm Capasiti Ionawr 2021 | Enw'r Pennaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **YGG Bryniago** Lower James Street, Pontarddulais, Abertawe, SA4 1HY. (01792) 882012<br>E-bost YGG.Bryniago@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Bryniago | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 214 | 31 | 222 | Mrs N Jones |
| **YGG Bryn y Môr** St, Alban's Road, Brynmill, Abertawe, SA2 0BP. (01792) 466354<br>E-bost: YGG.Brynymor@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Brynymor | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 274 | 37 | 260 | Mrs E Wakeham |
| **YGG Gellionnen** Gellionnen Road, Clydach, Abertawe, SA6 5HE. (01792) 845489<br>E-bost: YGG.Gellionnen@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Gellionnen | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 258 | 43 | 305 | Mr K Davies |
| **YGG Llwynderw** West Cross Lane, West Cross, Abertawe, SA3 5LS. (01792) 407130<br>E-bost: YGG.Llwynderw@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Llwynderw | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 364 | 45 | 320 | Ms I Griffiths |
| **YGG Lonlas** Walters Road, Llansamlet, Abertawe, SA7 9RW. (01792) 771160<br>E-bost: YGG.Lonlas@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Lonlas | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 520 | 75 | 530 | Mrs K Thomas |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **YGG Pontybrenin** Loughor Road, Kingsbridge, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU. (01792) 894210<br>E-bost: YGG.Pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: www.yggpontybrenin.com/ | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 599 | 71 | | 501 | Mr C H Scourfield |
| **YGG Tan-Y-Lan** Tan-Y-Lan Terrace, Morriston, Abertawe, SA6 7DU. (01792) 772800<br>E-bost: YGGTanylan@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: www.yggtan-y-lan.co.uk/ | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 196 | 60 | | 130 | Mr B Jones |
| **YGG Tirdeunaw** Heol Ddu, Tirdeunaw, Abertawe, SA5 7HP. (01792) 774612<br>E-bost: Tirdeunaw@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: Abertawe-edunet.gov.uk/en/schools/Tirdeunaw | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 408 | 75 | | 413 | Mrs J James |
| **YG Y Cwm** Jersey Road, Bon-y-Maen, Abertawe, SA1 7DL (01792) 650326<br>E-bost: ygycwm@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: www.ygycwm.co.uk/ | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 164 | 28 | | 197 | Mrs S David |
| **YGG Y Login Fach** Roseland Road, Waunarlwydd, Abertawe, SA5 4ST. (01792) 874399<br>E-bost: YGG.LoginFach@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: www.yloginfach.co.uk/ | 3-11 | Cyfrwng Cymraeg | 247 | 30 | | 214 | Miss U Evans |

| Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y sefydliad | Ystod Oedran | Nifer ar y gofrestr Ebrill 2021 | Anghenion Ychwanegol Medi 2021 | Cyfanswm Capasiti Ionawr 2021 | Enw'r Pennaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| YSGOLION UWCHRADD CYFRWNG CYMRAEG CYMUNEDOL | | | | | |
| Ysgol Gyfun Bryn Tawe Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe, SA5 7BU. (01792) 560600<br>E-bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/bryntawe | 11-18 | 972 | 205 | 1,243 | Mr S Davies |
| Ysgol Gyfun Gŵyr Talbot Street, Gowerton, Abertawe, SA4 3DB. (01792) 872403<br>E-bost: Ysgol.Gyfun.Gwyr@swansea-edunet.gov.uk<br>Gwefan: www.yggwyr.org.uk/ | 11-18 | 1,210 | 173 | 1,069 | Mr D Jenkins |

## Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Uwchradd

Yn Abertawe mae gennym hanes da iawn o gadw disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Dros y tair blynedd diwethaf mae hyn wedi gweld 99.7%, 98.7% a 97.5% yn y drefn honno yn trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Abertawe.

Mewn TGAU Iaith Gyntaf Cymraeg, enillodd 88.0% o fyfyrwyr yn 2021 raddau A* - C, ac mae'r niferoedd sy'n dechrau ar y pwnc hwn wedi cynyddu'n gyson yn y naw mlynedd hyd at 2021.

Mewn TGAU Ail Iaith Gymraeg (cwrs llawn) mae dros 74.8% o fyfyrwyr yn 2021 yn ennill graddau A* - C ac mae'r niferoedd sy'n dechrau ar y pwnc wedi cynyddu yn yr wyth mlynedd er 2012 o 239 ymgais i 1736 ymgais yn 2021. Mae'r cynnydd mewn cofrestriadau yn rhannol oherwydd tynnu'r opsiwn cwrs byr yn ôl yn y pwnc hwn, gyda'r holl gynigion yn gwrs llawn o 2019.

Mae perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gryf yng Nghamau Allweddol 2 a 3, ond ni chasglwyd unrhyw ddata yn 2020 oherwydd y pandemig.

## Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Ôl-16

Mae ystod eang o gyrsiau ar gael i fyfyrwyr sy'n dymuno parhau mewn addysg amser llawn ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed. Gall myfyrwyr ddewis parhau â'u hastudiaethau mewn ysgol uwchradd gyda chweched dosbarth neu goleg Addysg Bellach (AB).

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ac Ysgol Gyfun Gŵyr yn cynnig darpariaeth chweched dosbarth trwy gyfrwng Cymraeg.

Mae'r coleg AB, Coleg Gŵyr Abertawe hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi bod ein holl blant a phobl ifanc yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd, ac yn cael eu cefnogi i ddatblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Dylai fod gan bob dysgwr lwybrau priodol ar gyfer dysgu Cymraeg a Saesneg i'w galluogi i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn bywyd bob dydd.

*Mae datblygu rhwyddineb a gallu dysgwyr i weithio mewn dwy iaith hefyd yn cynnig sail gadarn i ddysgwyr ymgysylltu â'r gwahanol ieithoedd y byddan nhw'n dod i gysylltiad â nhw, gan ddatblygu dysgu mewn ieithoedd eraill wrth iddyn nhw wneud cynnydd. Dylai ysgolion ddarparu amgylcheddau iaith cyfoethog i ddysgwyr, a dylai tasgau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm fod yn ddatblygiadol briodol.*
*[Cwricwlwm i Gymru]*

Byddwn yn cefnogi dysgwyr yn ein hysgolion, waeth beth fo'u categori ieithyddol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel y nodir yn natganiadau Beth sy'n Bwysig ym maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at 'Gymru â Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg sy’n Ffynnu'. Mae'n ddyletswydd arnom i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i hyn fod yn edefyn cryf trwy bopeth a wnawn.

**Y Gweithlu**
Rydym wedi defnyddio'r data a gasglwyd ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yng Nghyfrifiad y Gweithlu Ysgol i nodi bylchau sgiliau cyfredol a lle mae'r bylchau yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Bydd newidiadau yn faint o Gymraeg a addysgir yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg yn effeithio ar anghenion sgiliau staff a'r gefnogaeth ieithyddol sy'n ofynnol. Mae'r siart isod yn rhoi syniad o lefelau gallu.

Er bod hyfedredd iaith Gymraeg sylweddol o fewn gweithlu'r ysgol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd staff i gyd yn hyderus wrth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod nifer y staff sy'n ofynnol yn y dyfodol i gyflawni'r dyhead cenedlaethol ar gyfer twf parhaus mewn darpariaeth Gymraeg yn dipyn o her.

**Cyfrifiad Gweithlu’r Ysgol 2020: Gallu yn y Gymraeg**

| **Pob ysgol** | **Cyfrif pennau** | | | **Canran Cyfrif pennau** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel** | **Athrawon** | **Staff Cymorth** | **Cyfanswm** | **Athrawon** | **Staff Cymorth** | **Cyfanswm** |
| Lefel Hyfedredd | 364 | 213 | 577 | 18.2% | 8.9% | 13.2% |
| Lefel Uwch | 77 | 37 | 114 | 3.9% | 1.5% | 2.6% |
| Lefel Canolradd | 176 | 58 | 234 | 9.1% | 2.1% | 5.4% |
| Lefel Sylfaen | 416 | 192 | 608 | 21.1% | 7.7% | 13.9% |
| Lefel Mynediad | 509 | 750 | 1259 | 26.0% | 31.3% | 28.9% |
| Dim sgiliau ieithyddol | 424 | 1139 | 1563 | 21.5% | 48.3% | 35.9% |
| Gwybodaeth heb ei sicrhau eto | 2 | 5 | 7 | 0.1% | 0.2% | 0.2% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **1968** | **2394** | **4362** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

| Cyfrwng Saesneg yn unig | Cyfrif pennau | | | Canran Cyfrif pennau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm |
| Lefel Hyfedredd | 109 | 38 | 147 | 6.4% | 1.7% | 3.8% |
| Lefel Uwch | 70 | 20 | 90 | 4.1% | 0.9% | 2.3% |
| Lefel Canolradd | 176 | 52 | 228 | 10.3% | 2.4% | 5.8% |
| Lefel Sylfaen | 416 | 192 | 608 | 24.4% | 8.8% | 15.6% |
| Lefel Mynediad | 509 | 750 | 1259 | 29.8% | 34.2% | 32.3% |
| Dim sgiliau ieithyddol | 424 | 1135 | 1559 | 24.9% | 51.8% | 40.0% |
| Gwybodaeth heb ei sicrhau eto | 2 | 5 | 7 | 0.1% | 0.2% | 0.2% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **1706** | **2192** | **3898** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

| Cyfrwng Cymraeg yn unig | Cyfrif pennau | | | Canran Cyfrif pennau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm | Athrawon | Staff Cymorth | Cyfanswm |
| Lefel Hyfedredd | 255 | 175 | 430 | 97.3% | 86.6% | 92.7% |
| Lefel Uwch | 7 | 17 | 24 | 2.7% | 8.4% | 5.2% |
| Lefel Canolradd | | 6 | 6 | 0.0% | 3.0% | 1.3% |
| Lefel Sylfaen | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Lefel Mynediad | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dim sgiliau ieithyddol | | 4 | 4 | 0.0% | 2.0% | 0.9% |
| Gwybodaeth heb ei sicrhau eto | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **262** | **202** | **464** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

**Darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid**

Pwrpas y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid yw darparu cyrsiau dysgu Cymraeg dwys i alluogi plant i gyflawni'r lefel rhuglder sy'n ofynnol i drosglwyddo i addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, cyflwynir hyn trwy fodel dysgu peripatetig gyda'r gefnogaeth yn mynd at y dysgwr yn hytrach na'r dysgwr yn teithio i safle penodol o fewn ffiniau'r ddinas a'r sir.

Bwriedir y ddarpariaeth a’r gefnogaeth i blant sy'n newydd i'r Gymraeg yn y sesiynau trochi ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, ac maent yn cychwyn cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt drosglwyddo i ysgol Gymraeg. Mae hwyrddyfodiaid yn y cyfnod sylfaen yn elwa o'r mesurau trochi sy'n bodoli yn eu hysgol.

**Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae newidiadau sylweddol ar y gweill yng Nghymru o fis Medi 2021 mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag AAA neu ADY. Mae Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw'r trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA neu ADY yn eu hardal dan adolygiad ac ystyried a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol. Mae Deddf ALNET 2018 hefyd yn cynnwys gofyniad statudol i gymryd camau rhesymol i greu system cynorthwywyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr ag AAA neu ADY.

Hyd nes gweithrediad dilyniannol y Cod Newydd a ragwelir, o fis Medi 2021, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â Chod Ymarfer AAA presennol Cymru 2002 (Cod 2002) i gyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at ddysgwyr ag AAA neu ADY. Mae Cod 2002 yn nodi bod gan ddysgwyr AAA neu ADY os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am drefnu darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Ledled Abertawe mae yna ystod o ddarpariaethau arbenigol sy'n cynnwys Cyfleusterau Dysgu Addysgu Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Wrth i'r niferoedd mewn addysg Gymraeg gynyddu ymhellach byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer darpariaeth Gymraeg benodol bellach i gefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr.

**Cludiant Ysgol**

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cludiant cartref i'r ysgol ar gyfer plant cymwys. Mae hyn yn ymwneud â disgyblion oedran ysgol statudol (Derbyn) ac nid yw'n cynnwys disgyblion oed Meithrin.

Wrth ystyried a yw ysgol yn addas, mae Mesur Teithio gan Ddysgwr Cymru 2008 yn nodi na ddylai dewis iaith na mamiaith y plentyn na'r rhiant gael unrhyw effaith ar p'un a yw ysgol yn addas. Fodd bynnag, mae'r mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Am y rheswm hwn, bydd Cyngor Abertawe yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg ar yr amod bod y disgybl yn cwrdd â'r meini prawf pellter neu ddiffyg llwybr cerdded diogel.

**Myfyrwyr ôl-16**

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion dysgwyr sydd rhwng 16 a 19 oed; fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cludiant ysgol neu goleg yn rhad ac am ddim i unrhyw ddysgwr sy'n fwy nag oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn defnyddio ei bwerau dewisol a bydd yn darparu cludiant i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol sy'n cwrdd â meini prawf y pellter lleiaf neu ddiffyg llwybr diogel/sydd ar gael i'w hysgol neu goleg dynodedig, neu anghenion addysgol arbennig. Mae'r Cyngor yn darparu tocynnau bws i ddysgwyr cymwys deithio i'w hysgol ddynodedig.

Mae'r Cyngor yn dirprwyo cyllid a chyfrifoldeb am ddarparu cludiant coleg ôl-16 i'r ddau goleg AB. Os nad yw'r ysgol ddynodedig neu'r coleg cysylltiedig yn cynnig y cwrs astudio penodol sydd ei angen ar y myfyriwr, darperir cludiant i'r ysgol /coleg agosaf sy'n cynnig y cwrs os yw'n cwrdd â'r meini prawf pellter lleiaf.

# Rhestr Ymgynghori

**Ymgynghorwyr**

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori hon ar wefan Cyngor Abertawe ac roedd ar gael i'r canlynol:

Cyrff Llywodraethu a phrifathrawon pob ysgol a gynhelir gan Gyngor Abertawe
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Castell-nedd Port-Talbot
Cyngor Sir Powys
Cyngor Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Coleg Gŵyr Abertawe
Estyn
Esgobaeth Tyddewi
Esgobaeth Menevia
Comisiynydd y Gymraeg

Darparwyr hyfforddiant y gweithlu addysg:

Prifysgol Abertawe
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc fel y bydd yr awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol:

Mudiad Meithrin
Yr Urdd
Menter Iaith
SNAP Cymru

Personau neu gyrff eraill fel y bydd yr awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol:

Merched y Wawr
Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PAGA)
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Y cyfnod ymgynghori

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori hwn ar ddydd Llun 27 Medi a death i ben ar 22 Tachwedd 2021.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd hi'n bosib ymateb arlein neu trwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Addysg.

**Dinas a Sir Abertawe**

**Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion**

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2022-2032**

## Cyflwyniad

Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ar y 27 Medi 2021 a gorffen ar yr 22 Tachwedd 2021.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft yn www.abertawe.gov.uk/wesp/.

Ymatebodd 21 i'r ymgynghoriad.  Cânt eu rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gofynnwyd wyth cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori, un am ddatganiad o weledigaeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac un ar gyfer pob un o'r deilliannau a nodwyd yn y cynllun. Cafwyd hefyd gyfle i gyflwyno sylwadau cyffredinol. Defnyddiodd mwyafrif yr ymatebwyr y ffurflen ymateb ar-lein neu ffurflen ymateb bapur swyddogol. Anfonwyd rhai ymatebion heb ddefnyddio'r ffurflen. Caiff trosolwg o'r prif themâu sy'n codi yn y sylwadau a chanlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd ei gynnig isod. At hynny, mae'r ymatebion manwl (nid ar y ffurflen) wedi cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd a, lle y bo'n berthnasol, eu hadlewyrchu yn fersiwn derfynol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rhennir hefyd becyn o'r holl ymatebion gydag Aelodau’r Cabinet.

## Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 1a**
Mae gennym darged deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 8 | 0 | 5 | 8 |

**Cwestiwn 1b**
Nodwch unrhyw sylwadau ynglŷn â'n gweithredoedd arfaethedig i gyrraedd y targed.

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Mae'n hen bryd i'r sir hon ddechrau hybu addysg Gymraeg ac agor mwy o ysgolion Cymraeg ar draws cymunedau Abertawe.
- Rwy'n teimlo y gallai cael targed fel hwn orfodi'r cyngor, yn ddiarwybod, i ffafrio'r sector addysg Gymraeg.
- Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod dysgu ail iaith o fudd i blant.
- Gwell hwyr na hwyrach! Da iawn
- Credaf bod hawl gan rieni i ddewis pa iaith maent am i'w plant gael eu haddysgu drwyddi.
- Byddai hyn yn galw am newid enfawr yn y gweithlu er mwyn gallu addysgu yn Gymraeg.
- Yn fy mhrofiad personol, mae ysgolion Cymraeg yn derbyn plant Saesneg eu hiaith, ond cyn gynted ag y nodir anghenion dysgu mae'r ysgolion yn cynghori'r rhieni i fynd â'u plant i ysgolion Saesneg ac yna mae'r plentyn wedi colli sawl blwyddyn o nodi ac asesu i sicrhau diwallu eu hanghenion yn well.
- Yn gyffredinol, mae angen cryfhau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol i adlewyrchu'r amrediad o weithgareddau a gynllunnir ac sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i wella datblygiad strategol y Gymraeg yng ngwasanaethau addysg Abertawe.
- Dyma rai ystyriaethau ar gyfer cyfnerthu'r cynllun:
  - Cynnwys mwy o fanylion ynghylch sut bydd camau gweithredu/arloesedd cynlluniedig yn achosi gwelliant.
  - Bod yn fwy penodol wrth nodi'r deilliannau a fwriedir, yn enwedig wrth drafod dilyniant ieithyddol.

- Nodi cyfleoedd lle gallai'r awdurdod elwa o gydweithio gydag awdurdodau cyfagos, er enghraifft wrth ddatblygu trydydd ysgol uwchradd Gymraeg yn nwyrain Abertawe.
- Ystyried gwneud y cysylltiadau rhwng y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg â chynlluniau strategol eraill y Cyngor yn amlwg.

- Er ein bod yn cydnabod yr anhawster wrth osod targed benodol, byddwn yn annog Cyngor Abertawe yn gryf i wneud hynny yn fersiwn derfynol y Cynllun.
- Cefnogir y cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth cyn-ysgol Gymraeg fel rhan o strategaeth farchnata ehangach. Mae'n braf gweld y gallai hyn gynnwys o leiaf un cylch meithrin yn gysylltiedig â phob ysgol gynradd Gymraeg a/neu ddalgylch a chynyddu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn eu lleoliadau cyfredol ac ychwanegol o bosib.
- Hoffem weld mwy o fanylion ynghylch sut y bwriedir llenwi'r oddeutu 120 o leoedd ychwanegol sydd eisoes ar gael ym mlwyddyn 1 ysgolion Cymraeg.
- Mae UCAC yn croesawu bwriad yr awdurdod i sefydlu ysgol(ion) G/Cymraeg newydd ac i gynyddu'r lleoedd mewn ardaloedd galw uchel, er rhaid nodi bod y cynlluniau bellach yn ceisio cynyddu'n rhagweithiol, nid ymateb yn oddefol i 'alw'.
- Nodir y bwriad i 'nodi' ardaloedd lle mae addysg Gymraeg yn llai hygyrch ar hyn o bryd. Cytunwn yn gryf â'r angen i wneud felly. Ond hoffem weld peth mapio cychwynnol yn y Cynllun terfynol ei hun fel sail i gynllunio.
- Rydym yn cytuno gyda'r awdurdod y bydd angen cynnwys prosiectau o'r math hwn mewn rhaglen gyfalaf.



**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Roedd rhai o'r ymatebion am fwy o wybodaeth am fuddion addysg ddwyieithog gan gredu y dylai rhieni fod â hawl i ddewis a yw plant yn cael addysg Gymraeg neu Saesneg. Bydd buddion addysg ddwyieithog yn cael eu rhannu'n glir â'r holl randdeiliaid fel rhan o'n strategaeth farchnata o hyn ymlaen. Rydym yn credu bod gan rieni ddewis eisoes ynghylch dewis iaith addysg eu plant. Bydd y dewis ar gael o hyd i bob rhiant, ond o hyd gyda ffocws cynyddol ar ddwyieithrwydd ac amlieithedd ar draws y cwricwlwm newydd.

**Cwestiwn 2a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 1**
Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 8 | 0 | 5 | 8 |

**Cwestiwn 2b**
Rhowch sylwadau am unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 1:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Mae cylchoedd chwarae Ti a Fi a dosbarthiadau meithrin ym mhob ysgol yn allweddol i sicrhau cynnydd mewn addysg Gymraeg.
- Mae angen sicrhau bod darpariaeth Feithrin ar gael ym mhob dalgylch.
- Rwy'n teimlo y gallai cael targed fel hwn orfodi'r cyngor, yn ddiarwybod, i ffafrio'r sector addysg Gymraeg.
- Delfrydau unbennaeth. Onid yw pob iaith yn hafal.
- Mae nifer o'r plant rydym yn eu haddysgu yn ein hardal ni yn dod i'r ysgol gyda sgiliau cyfathrebu llawer is na'r disgwyl. Nid yw eu rhieni yn cyfathrebu â hwy yn Saesneg ac felly mae’r siawns ohonynt yn cyfathrebu yn Gymraeg yn fychan neu’n ddim.
- Nid yw'r cynigion cyffredinol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth yn ddigon datblygedig i ymdrin ag uchelgais rhieni plant oed cyn-ysgol yn Abertawe.
- Nid yw'r strategaeth ddrafft yn alinio gyda nod datganedig yr awdurdod lleol...nid yw'r ymagwedd yn trafod y bylchau o ran darpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd penodol yn yr awdurdod lleol.
- Gellid cryfhau'r strategaeth trwy ymagwedd ragweithiol i nodi a chynllunio rhaglen y dyfodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyn-ysgol Gymraeg.
- Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi bod lle eisoes o fewn y sector addysg gynradd Gymraeg ar hyn o bryd. Os yw hyn yn wir yna nid yw'n synhwyrol canolbwyntio ar ddarpariaeth cyn-ysgol Gymraeg fel modd o gynyddu'r niferoedd sy'n mynd yn eu blaenau i addysg gynradd Gymraeg. Bydd cyflawni'r prif darged deng mlynedd ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yn dibynnu'n bennaf ar sicrhau bod mwy o deuluoedd yn dewis darpariaeth gofal a meithrin Gymraeg, ac felly'n trosglwyddo i ddarpariaeth gynradd sy'n bodoli.

- Nid oes unrhyw ymgais yma i ddadansoddi'r sefyllfa gofal plant ehangach yn fanwl, na thrafodaeth ystyrlon ynghylch sut i ehangu a hwyluso mynediad i ddarpariaeth gofal ac addysg blynyddoedd cynnar Gymraeg.
- Rydym (Menter Iaith Abertawe) yn croesawu'r bwriad i ddatblygu llwyfan digidol priodol ar wefan y Cyngor a fydd yn rhoi gwybodaeth i rieni am fuddion dwyieithrwydd. Yn yr un modd, rydym yn croesawu'r bwriad i ddatblygu a chyflwyno strategaeth farchnata glir.
- Rydym hefyd yn croesawu'r cyfeiriad at ddatblygu llwyfan digidol priodol i rannu gwybodaeth angenrheidiol gyda rhieni yn rhan hon y drafft. Byddwn yn awyddus i gydweithio i ddatblygu fersiwn ryngweithiol o'r llyfryn Addysg Gymraeg fel rhan o'r llwyfan hwn.
- Mae'r Mudiad Meithrin yn croesawu bod y sir yn cydnabod yr angen am gydweithio i ddatblygu gwasanaethau mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd, ond mae angen i'r sir gynllunio'n fanwl y broses ddilyniant yn yr ardaloedd hyn, a hefyd y diffyg adeiladau addas. Mae'r Mudiad Meithrin yn datblygu ar hyn o bryd o fewn ardaloedd penodol yn y sir o dan y Cynllun Sefydlu a Symud sydd hefyd yn cynnwys sefydlu Cylch Ti a Fi.
- Mae gan bwysigrwydd negeseuon gwasanaethau cyn ac ar ôl geni rôl i'w chwarae yn y deilliant hwn. Y Cylch Meithrin yw'r cam cyntaf i addysg Gymraeg ar gyfer llawer o deuluoedd. Mae'r uchod yn hollbwysig i addysg Gymraeg.
- Rydym yn croesawu nodi mai un ddarpariaeth Dechrau'n Deg benodol sydd yn y sir a'r angen am archwilio cyfleoedd i gynyddu'r nifer o leoliadau Dechrau'n Deg.
- Mae'n braf gweld bod yr awdurdod yn annog ac yn hybu Cynnig Rhagweithiol ar draws yr holl ddarparwyr cyn-ysgol a gofal plant, ond byddai'n dda gweld mwy o fanylion penodol ynghylch hyn.



**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Dengys rhai ymatebion bryderon y byddai'r Cyngor yn ffafrio addysg Gymraeg dros gyfryngau eraill gan feddwl y dylai'r Saesneg a'r Gymraeg gael eu trin yn gyfartal. Rôl y cyngor fydd hybu buddion dwyieithrwydd wrth gefnogi dyhead Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Trwy hybu'r buddion hyn byddwn yn rhoi'r wybodaeth i rieni lunio dewis deallus. Fel y saif ar hyn o bryd nid oes dewis iaith cyfartal a theg ar draws y ddinas a'r sir a bydd y targedau a osodir ar gyfer awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru yn ein symud tuag at gynnig mwy cyfartal a theg i bawb.

**Cwestiwn 3a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 2**
Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 8 | 1 | 4 | 8 |

**Cwestiwn 3b**
Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 2:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Ni ellir gwireddu hyn heb hybu cylchoedd chwarae ac agor mwy o ysgolion Cymraeg ar draws Abertawe.
- Rwy'n teimlo y gallai cael targed fel hwn orfodi'r cyngor, yn ddiarwybod, i ffafrio'r sector addysg Gymraeg.
- Barn sy'n llwyr ynysu a gwahaniaethu! Ar gyfer plant, rhieni a staff ysgol sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn.
- Er fy mod yn cefnogi hawl rhieni i ddewis a yw eu plant yn dysgu drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg, rwy'n teimlo bod ymdrech wleidyddol fawr i wneud dysgu Cymraeg yn fwy apelgar i deuluoedd trwy adeiladu ysgolion Cymraeg newydd.
- Mae'r ddogfen yn amlinellu cynlluniau'r awdurdod lleol i gynyddu'r nifer o blant Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 200 a 400 yn ystod oes y strategaeth. Mae'r bwriad o gysylltu 'Cylchoedd Meithrin' â phob ysgol gynradd Gymraeg yn synhwyrol. Gellid cryfhau'r strategaeth trwy ddatblygu'r ddarpariaeth Cylchoedd Meithrin mewn ardaloedd lle mae mynediad i addysg Gymraeg yn gyfyngedig. Gallai hyn, dros oes y cynllun, alluogi gwell mynediad i ddarpariaeth cyn-ysgol Cymraeg ac yn gam cyntaf tuag at ddatblygu ysgolion cynradd Cymraeg sy'n hygyrch ac wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol.
- Byddai'r cynllun yn elwa o gael cynigion mwy rhagweithiol i gynyddu hygyrchedd i gyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Mae'r data a ddarparwyd yn dangos bod hanner yr ysgolion cynradd Cymraeg â niferoedd uwch na'r niferoedd derbyn swyddogol. Nid yw'r ddogfen yn nodi sut mae'n bwriadu darparu mwy o le mewn pedair allan o bump o'r ysgolion hyn.
- Gallai'r strategaeth gael ei chryfhau trwy gynnwys syniad o sut mae'n bwriadu cynyddu'r lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn wan er mwyn gwella ei ledaeniad a'i hygyrchedd ar draws yr awdurdod lleol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r Strategaeth gynnwys cyfeiriad mwy pendant i'w polisi a fwriedir ar gyfer ysgolion newydd i ddiwallu anghenion mewnlif o ddisgyblion newydd sy'n byw mewn datblygiadau tai newydd. Rydym yn croesawu adolygiad yr awdurdod lleol o'i ymagwedd at gefnogi disgyblion newydd i'r Gymraeg.

- Rydym o'r farn nad yw'r rhan hon yn esbonio'n fanwl strategaeth y Cyngor i sicrhau cynnydd arwyddocaol yn y nifer o blant oedran derbyn sy'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg. Er enghraifft:
    - Nid oes cyfeiriad at ddata nac ymgais i ddadansoddi sefyllfa gyfredol addysg gynradd y Sir.
    - Os yw'r cyngor yn llwyddo i weithredu yn unol â Deilliant 1 ac yn sicrhau bod y lleoedd gwag sy'n bodoli mewn ysgolion cynradd ar hyn o bryd yn cael eu llenwi, bydd hyn yn golygu bod 120 yn fwy o ddysgwyr yn derbyn addysg gynradd Gymraeg. Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at gynlluniau'r Cyngor i gyflawni'r cynnydd hwn (hynny ydi, y tu hwnt i lenwi'r lleoedd gwag cyfredol).
    - Rydym yn deall ei bod yn bosib nad yw rhai materion wedi'u cwblhau, ond mae angen amlinellu bwriad y Cyngor o ran lle mae angen cynyddu'r ddarpariaeth, a beth yw'r amserlen ar gyfer rhoi hyn ar waith.
    - Mae'r pwyntiau uchod hefyd yn ymwneud â'r ymrwymiadau i ddarpariaeth yr hwyrddyfodiaid. Nid yw'r ymrwymiad i gyflawni adolygiadau yn y dyfodol ac i ystyried eu canfyddiadau gyfystyr â chynllun strategol. Holl ddiben y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw bod yr ymchwil hon yn cael ei chyflawni wrth ffurfio'r strategaeth, a bod hyn yn rhoi sail ar gyfer cynllun gweithredu manwl. Rydym yn derbyn bod gwaith adolygu a monitro yn barhaus ac yn croesawu'r bwriad i gyflawni adolygiadau yn y dyfodol, ond nid yw hyn yn atal ystyried y dystiolaeth sydd eisoes ar gael i'r Cyngor a chynnig ymrwymiadau penodol yma.
- Mae'n hanfodol bod Mudiad Meithrin yn rhan o'r trafodaethau a'r cynlluniau i sicrhau bod y sir yn bodloni targed y cynllun. Mae dilyniant yn hanfodol wrth gynyddu niferoedd y plant mewn addysg Gymraeg.
- Mae angen i fuddion addysg Gymraeg gael eu hybu ac mae angen iddynt gyrraedd pob teulu yn y sir. Mae addysg Gymraeg i bawb.
- Rydym yn cymryd y bydd yr adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer hwyrddyfodiaid yn cael ei gwblhau mewn pryd er mwyn cynnwys cynigion pendant yn y cynllun terfynol, yn enwedig o ystyried y cyhoeddiad am arian ychwanegol ar gyfer hynny gan Lywodraeth Cymru.

**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Dengys rhai ymatebion bryderon y byddai'r cyngor yn ffafrio addysg Gymraeg dros gyfryngau eraill gan gredu y byddai'r cynllun a'i gynigion yn arunigo ac yn gwahaniaethu yn erbyn plant, rhieni a staff ysgolion Saesneg. Cafwyd hefyd farn bod ymdrech wleidyddol i wneud dysgu Cymraeg yn fwy apelgar i deuluoedd trwy adeiladu ysgolion Cymraeg newydd. Fel y nodwyd eisoes, rôl y cyngor fydd hybu buddion dwyieithrwydd wrth gefnogi dyhead Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Trwy hybu'r buddion hyn byddwn yn rhoi'r wybodaeth i rieni lunio dewis deallus. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynhwysol ac o ganlyniad byddwn yn gweithio gyda phob un o'n hysgolion - plant, rhieni a staff - ym mhob un o'r hysgolion a lleoliadau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ac i symud pawb ar hyd y continwwm iaith. Mae gan y Cyngor record ardderchog o fuddsoddi, gyda Llywodraeth Cymru, ar draws ei holl ysgolion nid ein hysgolion Cymraeg yn unig.

**Cwestiwn 4a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 3**
Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 8 | 4 | 1 | 8 |

**Cwestiwn 4b**
Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 3:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Bydd cynnydd bychan iawn yn sgiliau iaith Gymraeg disgyblion o fewn y sector Saesneg. Os ydym am gynyddu nifer y disgyblion cwbl ddwyieithog, y ffordd i wneud hyn yw trwy addysg Gymraeg.
- Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gwblhau eu gwaith cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r dilyniant o addysg statudol i ôl-statudol yn golygu bod nifer o ddisgyblion sydd wedi mynychu ysgol Gymraeg yn colli eu sgiliau iaith Gymraeg ôl-16. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn galluogi dysgwyr i gwblhau nifer o gymwysterau wrth dderbyn addysg dwyieithog yn y coleg er mwyn cynnal neu wella eu Cymraeg.
- Mae angen mwy o athrawon cymunedol / ymgynghorwyr iaith gyntaf i gefnogi ysgolion Cymraeg.
- Rwy'n cefnogi'n llwyr yr angen am barhau i ddysgu a gwella POB iaith yn y cyfnod hwn. Mae cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru hefyd yn awgrymu trydedd iaith hefyd!
- Mae gan yr awdurdod lleol hanes cadarnhaol o sicrhau dilyniant ieithyddol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae'r camau gweithredu o fewn yr amcan hwn yn amwys ac weithiau mae 5 yn cyfeirio at gynlluniau heb esbonio sut cânt eu gwireddu.
- Mae'r canran o ddisgyblion sy'n pontio o addysg gynradd Gymraeg i ddarpariaeth uwchradd Gymraeg yn uchel iawn. Rydym felly'n cytuno bod cynnal canran tebyg yn y dyfodol yn darged rhesymol ar gyfer y Cyngor.
- Gobeithio bydd y cynnydd arfaethedig mewn niferoedd ysgolion cynradd Cymraeg yn arwain at gynnydd cyfatebol yn y sector uwchradd yn y dyfodol. Rydym yn derbyn y bydd rhai blynyddoedd hyd i'r cynnydd hwn effeithio ar ysgolion uwchradd, ond mae lle i ystyried hyn yn nhrafodaeth y Deilliant hwn. Er enghraifft, beth yw goblygiadau targedau Deilliant 2 ar ddyfodol y

ddarpariaeth uwchradd? Faint o le sydd yn yr ysgolion uwchradd presennol? A fydd angen cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth uwchradd Gymraeg yn y dyfodol?

- Ceir cyfeiriad yma at gyfraddau pontio rhwng cynradd ac uwchradd, ond byddwn yn disgwyl i'r cyngor gyfeirio at ddata sy'n archwilio dilyniant ieithyddol rhwng pob cyfnod allweddol.
- Ceir peth ystyriaeth o'r ddogfen ymgynghori o ran y cynlluniau ar gyfer cefnogi sgiliau iaith Gymraeg pob disgybl yn y sir. Credwn bod lle yma i ehangu ar hyn, gan gynnwys archwilio data am ddilyniant ieithyddol mewn ysgolion Saesneg.
- Fel a nodir yn y ddogfen ymgynghori, disgwylir i'r cyngor osod targed yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y cynllun o ran faint o addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion. Fodd bynnag, ni osodir unrhyw dargedau.
- Rydym yn croesawu'n fawr iawn y dyhead o gael o leiaf un aelod o staff o Flynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen Saesneg ysgol gynradd yn mynychu cwrs sabothol cenedlaethol. Nid yw'n glir i ni yr hyn a olygir gan yr ymadrodd bod y cyngor yn 'dyheu' cyflawni hyn. Byddem yn gwerthfawrogi manylion ynghylch camau gweithredu ymarferol gall y cyngor eu cymryd i hwyluso hyn.
- Bydd Menter Iaith Abertawe hefyd yn cyfrannu at ddeilliant 3 wrth geisio sicrhau bod y dysgwyr yn parhau gydag addysg Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod allweddol i'r nesaf. Rydym wrthi'n trafod gydag ysgolion uwchradd sut gallwn gydweithio i gyfoethogi eu rhaglenni trosglwyddo sy'n bodoli, ac yn bendant ceir potensial ar gyfer y rhaglen hon i uno'n naturiol gyda datblygu cynllun gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym yn bwriadu cefnogi rhaglenni trosglwyddo mewnol ysgolion a chynnig sesiynau trosglwyddo ychwanegol i ddisgyblion, ynghyd â chynnig sesiynau i gefnogi a hybu hyder rhieni di-Gymraeg.
- Ar hyn o bryd nid oes trafodaeth arwyddocaol yn eich cynllun am y ddarpariaeth addysgol i ddysgwyr wedi iddynt adael y sector gorfodol.
- Nid yw Deilliant 3 yn sôn am bwysigrwydd trosglwyddo rhwng Cylchoedd Meithrin ac ysgolion cynradd a dylid nodi llwybr dilyniant clir ar gyfer teuluoedd o ran Cylch Meithrin/ysgolion cynradd/uwchradd.
- Mae UCAC wrth eu bodd yn gweld yr awdurdod yn hybu'r egwyddor hollbwysig o gefnogi pob dysgwr i fod yn amlieithog, a gallu defnyddio'r Gymraeg, y Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol arall, a datblygu ymagwedd agored a chwilfrydedd am holl ieithoedd a diwylliannau'r byd. Mae hwn yn fater pwysig iawn yn y byd modern.
- Dylid croesawu datblygu templed Cynllun Iaith a'i gyflwyno ym mhob ysgol i gefnogi cynnydd ieithyddol pob plentyn yn Gymraeg ar draws ein holl ysgolion.
- Mae'n galonogol gweld bod yr awdurdod yn 'dyheu' am o leiaf un aelod o staff o Flynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaenol ysgol gynradd Saesneg i fynychu cwrs sabothol cenedlaethol.
- Rydym yn croesawu bwriad yr awdurdod i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion.
- Byddai'n dda gweld y data ar gyfer cyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol eraill.

**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Credai un ymateb y byddai ond cynnydd bychan iawn yn sgiliau iaith Gymraeg disgyblion o fewn y sector Saesneg. Mae'r cynllun, wrth sefydlu continwwm sengl iaith Gymraeg a'i roi ar waith, yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr ar draws ein lleoliadau'n cael llwybr clir ar gyfer gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

**Cwestiwn 5a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 4**
Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 7 | 1 | 4 | 9 |

**Cwestiwn 5b**
Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 4:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cynnig nifer o gymwysterau y gellid eu haddysgu trwy'r Gymraeg ac mae gan bob dysgwr y cyfle i gyflwyno gwaith cwrs yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Caiff Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd a Gofal a Gofal Plant eu haddysgu'n ddwyieithog ac mae dysgwyr rhugl yn cwblhau eu Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylid cyflwyno tystiolaeth nad yw sefyll arholiadau mewn ail iaith yn cael effaith er gwaeth ar ganlyniadau cyn gwthio unrhyw blant i wneud hyn gydag arian y llywodraeth.
- Yr un sylwadau yma hefyd! Nid ystyriwyd staff Saesneg eu hiaith nac ymgynghori â hwy, gan greu teimladau o bryder a straen ac ychwanegu at lwyth gwaith sydd eisoes yn ormod.
- Fel rhiant, rwy'n anghytuno'n gryf gyda hyn ac yn flin bod fy mhlant yn cael eu gorfodi i wneud TGAU Cymraeg, gan eu hanfanteisio yn erbyn eu cyfoedion Saesneg trwy leihau nifer y TGAU mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.
- Mae gan yr awdurdod lleol hanes da o gynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r strategaeth yn cynnwys ffigurau perthnasol yn dangos tueddiad cadarnhaol dros amser. Nid yw'r strategaeth yn cynnwys gwybodaeth am gyfran y dewisiadau neu gymwysterau a ddewisir gan ddisgyblion yn Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 neu'r chweched dosbarth.
- Mae'r ddogfen yn nodi bod mwy na'r nifer derbyn yn Ysgol Gyfun Gŵyr ar hyn o bryd, lle mae lle ar gael yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. O ran Ysgol Gyfun Gŵyr, rydym yn ymwybodol o gynlluniau i ehangu safle'r ysgol a byddai'n ddefnyddiol cynnwys yr wybodaeth hon yn y ddogfen. At hynny, mae'r awdurdod lleol yn cynllunio uwchraddio rhannau o Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe a byddai hyn yn wybodaeth ddefnyddiol i'w chynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- Hefyd, rydym yn ymwybodol yr adolygwyd y dalgylchoedd cyfredol a'u newid ychydig flynyddoedd yn ôl a bydd yn y diwedd yn helpu i ddelio â'r problemau yn y ddwy ysgol. Efallai, yn ystod oes y strategaeth, y gallai'r awdurdod lleol ystyried ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn nwyrain Abertawe, gyda'r posibilrwydd o weithio ar gynnig a rennir gydag awdurdod cyfagos ar gyfer ysgol uwchradd Gymraeg newydd.
- Nid yw'r strategaeth ddrafft yn cynnwys cyfeiriad at gynyddu neu wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Saesneg yn gyffredinol.
- Ceir diffyg manylion wrth egluro a dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, ac mae'r camau gweithredu unwaith eto yn eithriadol o gyffredinol ac amwys.
- Nid ydym yn credu bod y rhan hon yn alinio gyda gofynion Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, neu arweiniad y llywodraeth.
- Mae'n dda gweld y cafwyd cynnydd cyson yn nifer y dysgwyr sy'n astudio am gymwysterau a asesir yn Gymraeg fel pwnc, ond rhaid sicrhau bod disgybl sydd am astudio'r Gymraeg heb ei anfanteisio am nad yw'r dewis o astudio Cymraeg ar gael.
- Dylid cynnwys pwysigrwydd cyrsiau galwedigaethol blynyddoedd cynnar nas cynhelir yn y deilliant hwn. Bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn barod i gydweithio i ledaenu'r neges.
- Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor gyda phob un o'r meysydd eang a amlygir ar gyfer gweithredu, nid yw'n bosibl ymateb yn ystyrlon heb fwy o fanylion, gan gynnwys ymagweddau, amserlenni a thargedau penodol a chamau cynnydd. Byddem wedi disgwyl gweld ysgolion unigol wedi'u henwi - nid yw'r hyn mae angen ei wneud i wella yr un fath ar gyfer pob ysgol.
- Mae archwilio cyfleoedd megis e-ysgolion a datblygu partneriaethau gyda darparwyr megis Coleg Gŵyr yn allweddol, ond mae'n bosib bod angen ystyried agor trydedd ysgol Gymraeg yn y ddinas er mwyn cyflawni'r targed hwn.
- 'Sgwn i a oes angen gwneud mwy i gydnabod rôl a dylanwad y cwricwlwm newydd? Dylai'r continwwm iaith Gymraeg (wedi'i roi ar waith yn gywir) olygu nad oes unrhyw ddisgyblion yn llithro o ran safon eu Cymraeg, neu lefel y disgwyliadau ohonynt, ni waeth pa iaith y ddarpariaeth o'u dewis. Mewn egwyddor, dylai arwain at siaradwyr mwy hyderus - a allai, dros amser, arwain at mwy o barodrwydd i gymryd cymwysterau drwy'r Gymraeg.



**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cafwyd sylw pellach y byddai'r cynigion yn arunigo ac yn gwahaniaethu yn erbyn plant, rhieni a staff yr ysgol cyfrwng Saesneg. Cafwyd sylw hefyd bod angen tystiolaeth i ddangos nad oes effaith er gwaeth ar ganlyniadau sefyll arholiadau mewn ail iaith. Yn olaf, cafwyd barn na ddylid gorfodi plant i astudio ar gyfer TGAU Cymraeg.

Fel y nodwyd eisoes, bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynhwysol ac o ganlyniad byddwn yn gweithio gyda phob un o'n hysgolion - plant, rhieni a staff - i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ac i symud pawb ar hyd y continwwm iaith. Fel rhan o'n strategaeth farchnata byddwn yn mapio'r holl daith addysg ac yn darparu tystiolaeth i ddangos buddion dwyieithrwydd a lefelau perfformiad ein hysgolion Cymraeg. Mae'r disgwyl i bob plentyn astudio Cymraeg at lefel TGAU yn bolisi cenedlaethol yng Nghymru.

**Cwestiwn 6a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 5**
Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Dwi'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 10 | 1 | 2 | 8 |

**Cwestiwn 6b**
Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 5:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Ceir cyfleoedd yng Ngholeg Gŵyr Abertawe i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy'r Gymraeg, i fod yn Llysgenhadon y Gymraeg trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghyd â bod yn rhan o griw iaith Gymraeg y coleg.
- Rwy'n cefnogi addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion, ond nid wyf yn cytuno gyda thargedau ar gyfer nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg.
- Trwy osod mwy o bwyslais ar ddysgu Cymraeg i bob plentyn a chynyddu'r cyllid ar gyfer hynny, o fewn ac y tu allan i'r ysgol, byddai cyngor Abertawe yn gallu cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg heb beryglu rhagolygon addysgol y rhai nad Cymraeg yw eu hiaith gyntaf. Yn benodol, dylid archwilio clybiau neu gyfleoedd Cymraeg y tu allan i'r ysgol er mwyn dwyn siarad Cymraeg i'r gymuned. Gallai hyn hefyd gynnwys cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu a siarad Cymraeg gyda'i gilydd.
- Gwelaf yn rheolaidd blant o'r ysgol gyfun Gymraeg leol yn siarad Saesneg cyn gynted ac y maent yn gadael tir yr ysgol. Os nad oes ganddynt ddiddordeb, yna pam fyddai plant Saesneg eu hiaith eisiau?
- O fewn y sector Cymraeg lle ceir awyrgylch cwbl Gymraeg ei iaith i gefnogi datblygiad ieithyddol y dysgwyr.
- Nid yw'r agwedd hon yn arbennig o arloesol ac nid yw'r amlinellu ystod o gweithgareddau ysgogol lle gall disgyblion glywed a defnyddio Cymraeg yn ddigon clir. Byddai'r awdurdod lleol yn elwa o weithio gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu'r agwedd hon o'r cynllun.
- Er ein bod yn croesawu'r camau gweithredu a gynhwysir a gyfer y deilliant hwn, mae'r mwyafrif yn eithaf amwys ac yn nodi bwriad i barhau i gyflwyno gweithgareddau sydd eisoes yn cael eu darparu, neu i barhau i gydweithio â phartneriaid allweddol. Nid ydym yn cwestiynu pwysigrwydd y camau gweithredu hyn, ond byddai'n ddefnyddiol cynnwys camau gweithredu mwy penodol a manwl.

- Fel y gwyddoch, mae gan y Cyngor Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gymeradwywyd yn 2016. Bydd disgwyl i'r cyngor lunio a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r strategaeth hybu 5 mlynedd wedi cyhoeddi'r strategaeth gychwynnol. Ceir buddion clir i'w hystyried o ran datblygu cynnwys y strategaethau hyn ar y cyd, ac mae lle i gyfeirio at gynnwys y strategaeth wrth drafod Deilliant 5.
- Mae'n bosib iawn taw Deilliant 5 a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yw lle mae gwaith Menter Iaith Abertawe yn cydblethu orau gydag amcanion y cynllun. Teimlwn fod hyn yn elfen allweddol wrth sicrhau llwyddiant y cynllun. Mae'n bwysig bod y partneriaid yn cyfarfod yn rheolaidd (naill ai fel PAGA neu yn manteisio ar fforwm iaith rhanbarthol) i sicrhau cydweithio effeithiol a hybu ar y cyd, ac i sicrhau bod trigolion Abertawe yn derbyn yr wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael.
- Mae darbwyllo trigolion Abertawe i fanteisio ar yr hyn sydd eisoes ar gael drwy'r Gymraeg yn gallu bod yn her ar brydiau, felly byddai llwyfan a gweithdrefn hybu ar y cyd sefydlog o gymorth mawr.
- Wrth i ni gydweithio ar roi'r cynllun ar waith, rydym hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol ystyried sut gallwn gynyddu ein gallu fel Menter. Prin iawn yw'r arian cyfatebol sy'n cyrraedd y Fenter gan y cyngor, ac rydym yn gwbl ddibynnol ar brosiectau unigol ac arian a godir o bryd i'w gilydd. Nid yw'r ymagwedd hon yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac nid yw'n rhoi cyfle ar gyfer cynllun strategol...sefydlu perthynas waith mwy ffurfiol a chyson rhwng y cyngor a'r Fenter...yna rhaid ystyried ariannu'r Fenter fel y gallwn arwain a darparu'r hyn y cytunwyd arno.
- Gwobrau Shwmae - hoffem i'r cyngor gynnwys gwasanaethau nas cynhelir fel rhan o'r datblygiad hwn a chydnabod cyfraniadau a wneir yn y sector nas cynhelir i ddilyniant a'r iaith Gymraeg.
- Y Siarter Iaith: Rydym yn cefnogi datblygu'r Fframwaith Siarter Iaith, ond yn cydnabod pwysigrwydd dadansoddi llwyddiant y Siarter Iaith mewn ysgolion.
- Mae'n galonogol darllen am weledigaeth yr awdurdod i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ar draws ysgolion y sir. Mae cydweithio gyda mudiadau megis yr Urdd a Menter Iaith yn allweddol i lwyddiant hyn. Mae elwa o brofiadau'r Siarter Iaith a mentrau eraill yn debygol o gael ei wireddu. Byddai'r Gwobrau Shwmae a nifer o gymhelliannau tebyg yn helpu i ddenu i mwy o ddisgyblion i ystyried y Gymraeg fel iaith fyw ar gyfer bywyd bob dydd.

**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cafwyd ambell sylw ynghylch iaith y dysgwyr yn newid i'r Saesneg y tu all i glwydi'r ysgol ac y byddai'r cynigion hyn ond yn hyfyw o fewn sector cyfrwng Cymraeg lle ceir awyrgylch cwbl Gymraeg ei iaith i gefnogi datblygiad ieithyddol dysgwyr. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu taclo o dan ein cynlluniau trwy gynyddu cyfleoedd o fewn ac y tu allan i'r ysgol er mwyn i bob dysgwr ddatblygu'n ieithyddol.

**Cwestiwn 7a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 6**
Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 9 | 0 | 4 | 8 |

**Cwestiwn 7b**
Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 6:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Cyfle cyfartal i bob disgybl! Mae'n myth bod addysg Gymraeg yn atal datblygiad disgyblion ADY.
- Ceir angen am uned ADY Cymraeg yn y sir - cynghorir gormod o rieni i symud eu plant i ysgolion Saesneg oherwydd anghenion eu plant. Mae penaethiaid wedi tynnu sylw at hyn ers rhai blynyddoedd.
- Os yw rhiant yn penderfynu eu bod am addysg Gymraeg yna dylid bod darpariaeth ADY. Yn rhy aml mae disgyblion ADY yn y ddarpariaeth Gymraeg yn trosglwyddo i'r ddarpariaeth Saesneg.
- Nid oes tystiolaeth bod dysgu mewn ail iaith yn cael effaith negyddol ar ddeilliannau addysg. Dylid rhoi hyn i siaradwyr gydag anghenion dysgu amgen.
- Targedau afrealistig!
- Mae gan blant gydag ADY ddigon o rwystrau yn eu bywydau eisoes ac yn enwedig os oes agwedd iaith a chyfathrebu gref i'w ADY. Pam fyddai unrhyw un o'r farn bod ychwanegu iaith o fudd i'r plant yma?
- Prin iawn yw'r wybodaeth am yr amcan hwn heblaw am nod cyffredinol i gefnogi dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'n fanteisiol amlinellu sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cefnogi'r dysgwyr hyn os yw'r galw am ddarpariaeth ADY yn cynyddu. Ar hyn y bryd, nid yw'r agwedd hon o'r cynllun yn ein sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gallu bodloni anghenion disgyblion a addysgir drwy'r Gymraeg ac sydd angen darpariaeth ADY, naill ai ar hyn o bryd neu o hyn ymlaen. Gallai'r awdurdod lleol elwa o weithio gydag awdurdodau cyfagos eraill i gryfhau'r agwedd hon o'r cynllun.
- Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod yr awdurdod lleol yn adolygu lefel y galw a'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol sydd ar gael drwy'r Gymraeg bob blwyddyn. Fodd bynnag, ni chrybwyllir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn. Mewn geiriau eraill, beth yn

union yw'r galw cyfredol, beth yw'r ddarpariaeth Gymraeg gyfredol, ac i ba raddau mae'n bodloni anghenion y dysgwyr ar hyn o bryd? Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod y ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol ac yn bodloni anghenion y dysgwyr, yna mae angen egluro hyn a darparu tystiolaeth.

- Nid ydym ym credu bod yr rhan hon yn bodloni gofynion yr arweiniad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg am ei fod ond yn nodi y bydd y cyngor yn adolygu'r ddarpariaeth bob blwyddyn, a bydd y cyngor yn delio ag unrhyw ddiffygion fel sy'n angenrheidiol. Mae angen egluro a dadansoddi'r ddarpariaeth gyfredol, gan nodi camau gweithredu i ddelio ag unrhyw ddiffygion. Mae'r arweiniad hefyd yn rhestru nifer o bethau eraill y dylid eu hystyried yma, er enghraifft, trefniadau cydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a materion gweithlu ADY.
- Hoffem weld camau pendant at sicrhau cefnogaeth Gymraeg arbenigol ar gyfer pob plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sir. Dylai cefnogaeth drwy'r Gymraeg fod gydradd â'r gefnogaeth Saesneg.
- Hoffwn i'r sir nodi'r camau o sut mae am hysbysu teuluoedd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael i bob plentyn.
- Hoffwn i'r deilliant hwn gydnabod pwysigrwydd cefnogaeth ar gyfer plant yn ein gwasanaethau blynyddoedd cynnar nas cynhelir i sicrhau bod yr holl blant yn gallu elwa'n llawn ar ymyrraeth gynnar. Mae'r gefnogaeth mae plant yn ei derbyn yn ystod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i sicrhau bod ganddynt sgiliau caffael iaith. Mae'r Mudiad Meithrin yn barod i gydweithio ar hyn.
- Ceir hefyd angen am sicrhau bod y plant yn derbyn yr un gefnogaeth wrth fynychu ysgol rhan-amser.
- Wrth gydnabod yr hyn mae'r awdurdod yn ei gyflawni eisoes yn llwyddiannus, credir bod angen mwy o fanylion am gynlluniau'r awdurdod er mwyn cyflawni'r targed hwn. Nid yw'r rhan hon yn rhoi digon o wybodaeth sylfaenol am ddarpariaeth gyfredol a sut mae'n gweithredu, neu ddigonolrwydd staff arbenigol a lle mewn ystafelloedd dosbarth. Mae'r rhan hon yn galw am lawer iawn o waith datblygu er mwyn bod yn addas i'r diben, ac yn gydnaws â gofynion y ddeddfwriaeth newydd a'r rhaglen trawsnewid. Fel gyda'r holl rannau eraill, mae angen gweld mapio, dadansoddi, cynllunio manwl, amserlen a thargedau meintiol ar gyfer gwahanol agweddau.



**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Cwestiwn 8a**
Nodwch pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn orau ar ein gweithredoedd arfaethedig.

**Deilliant 7**
Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Cyfanswm Ymatebwyr | Rwy'n cefnogi hyn | Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | Nid wyf yn cefnogi hyn | Dim ymateb/ni ddefnyddiwyd y ffurflen |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 7 | 2 | 4 | 8 |

**Cwestiwn 8b**
Rhowch sylwadau ar unrhyw agwedd ar ein cynigion mewn perthynas â Deilliant 7:

*Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac yna ymateb byr gan y Cyngor. Fel ag eglurwyd eisoes, bydd yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael i Aelodau'r Cabinet eu darllen ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig a dogfennau atodol.*



- Mae rhaglen ddatblygu staff Coleg Gŵyr Abertawe yn rhoi cyfle i staff ddysgu'r Gymraeg trwy gynllun Colegau Cymru - Cymraeg Gwaith. Mae ganddynt gyfle i fynychu hyfforddiant Sgiliaith i gynyddu'r defnydd o ddwyieithrwydd o fewn eu dosbarthiadau. Mae polisi recriwtio'r Coleg yn darparu cyfleoedd i gynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith yn y Coleg. Mae'r coleg wedi derbyn grantiau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni i gyflogi 3 thiwtor i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Rwy'n cefnogi buddsoddi i helpu athrawon i wella eu sgiliau Cymraeg, ond teimlaf na chyflwynwyd tystiolaeth i arddangos y dylid gwneud hyn trwy addysg Gymraeg.
- Eto, gwahaniaethu'n llwyr yn erbyn aelodau Saesneg eu hiaith y gweithlu sy'n hwyluswyr ysgogol ac angerddol dros addysg.
- Mae'r wybodaeth gefndir am allu staff yn y Gymraeg yn rhoi cyd-destun defnyddiol. Ceir niferoedd sylweddol o staff â sgiliau Cymraeg yn gweithio mewn lleoliadau Saesneg eu hiaith sy'n galonogol. Prin iawn yw sgiliau Cymraeg cyfran fawr o staff hefyd. Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu rhestr o fwriadau i gynyddu gallu'r staff yn y Gymraeg ac i annog staff i ddatblygu eu hyder i addysgu mewn lleoliadau Cymraeg.
- Mae'r cynllun yn crybwyll gweithio gyda phartneriaid eraill, ond nid yw'n amlinellu strategaeth i gydweithio wrth hyfforddi athrawon ar y cychwyn i gynyddu'r gyfran o athrawon sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg.
- Yn ein sgyrsiau gyda swyddogion, gwnaethom archwilio pwysigrwydd sicrhau bod staff yn ymwneud â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar wahanol lefelau ac yn deall eu rôl wrth helpu i gyflawni'r deilliannau. Gwnaeth y swyddogion hefyd nodi pwysigrwydd sicrhau bod cysylltiadau cryf rhwng strategaethau corfforaethol yr awdurdod lleol gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe a blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Byddai hyn yn cynorthwyo'r Cynllun

Strategol Cymraeg mewn Addysg i fod yn berthnasol ar draws meysydd gwaith allweddol yr awdurdod lleol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r strategaeth yn cynnwys syniad bras o faint o staff â sgiliau Cymraeg fydd eu hangen i gyflwyno'r deilliannau mewn 10 mlynedd.

- Byddai hefyd yn ddefnyddio cyfeirio'n fwy penodol at ddata Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion fel sail ar gyfer trafod camau gweithredu Deilliant 7. Mewn geiriau eraill, mae angen dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, o ran y math o gynnydd y bydd angen ei weld i gyflawni'r targedau ar gyfer y deilliannau sy'n weddill. A oes digon o allu yn y gweithlu Cymraeg, neu a fydd angen sicrhau bod mwy o athrawon sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg, ac os felly faint yn fwy?
- Mae'r Coleg wedi cyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ynghylch yr heriau sy'n codi o'r cwymp yn niferoedd hyfforddeion addysg sy'n cymhwyso i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a Chymraeg fel pwnc. Er bod eich cynllun yn nodi pwysigrwydd sicrhau gweithlu addas ar gyfer yr ysgolion presennol (a newydd) a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cynlluniau hyn, mae'r drafodaeth am y maes hwn ar y cyfan yn arwynebol. Beth yw'r sefyllfa gyfredol o ran y gweithlu addysg o fewn y sir? Faint yn fwy o athrawon a staff cefnogi bydd eu hangen arnoch i gyflwyno'r cynlluniau ar gyfer y twf a nodir yn eich cynllun? Pa gynlluniau sydd gennych i rannu'r dadansoddiad hwn gyda'r llywodraeth a gweithlu addysg y cyngor i sicrhau cyflenwad digonol o staff cymwys i fodloni'r galw?
- Mae'r pwyntiau am y gweithlu addysg yn eu hystyr ehangach hefyd yn berthnasol i ddeilliant 1 a datblygu darpariaeth feithrin, a byddwn ni fel coleg yn gweithio gyda cholegau addysg bellach a Mudiad Meithrin i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant fel bod cyflenwad addas o staff a fydd yn gallu darparu gofal plant ac addysg feithrin dwyieithog o'r radd flaenaf.
- Mae angen cynnwys sut gellir cynyddu'r gweithlu blynyddoedd cynnar yn Neilliant 7. Ceir prinder ymarferwyr Cymraeg eu hiaith cymwys ym myd addysg a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n hynod bwysig bo cyfleoedd i ymarferwyr ddilyn cyrsiau gofal plant Cymraeg eu hiaith. Gellir cyflawni sefydlogrwydd ar gyfer y gwasanaethau gofal plant a fydd yn y pen draw o fudd i'r ysgolion. Mae angen i ni sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd gydag ymarferwyr.
- Mae Mudiad Meithrin yn gallu gweithio gyda'r sir trwy'r Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol (prentisiaethau) a Chynllun Cam wrth Gam Ysgolion sy'n cynnig ystod lawn o gymwysterau gofal plant, dysgu drwy chwarae a datblygiad y plentyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg ôl-14/ôl-16.
- Y deilliant hwn yw sylfaen popeth arall yn y Cynllun.
- Rydym yn cytuno bod angen ffocws strategol yn y maes hwn, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer twf a chynnydd.
- Byddai'n ddefnyddiol gweld dadansoddiad mwy ystadegol yn y cynllun ynghylch lefelau sgiliau Cymraeg gweithlu addysg y sir (penaethiaid/athrawon/cynorthwywyr). Byddai dadansoddiad o'r fath yn ffurfio sail ar gyfer gosod targedau cynnydd penodol i gyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru o dan ei Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2050.
- Teimlwn, a bod yn deg â Chyngor Sir Abertawe (a chynghorau eraill) fod llawer o'r rheolaeth dros gyflenwad staff gyda chyrff eraill ee Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithlu Ysgolion (a Bwrdd Achredu'r ITE), darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon, a'r bydd yr ymagweddau mwyaf effeithiol yn galw am weithio mewn partneriaeth.

**Ymateb y Cyngor**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i bob cwestiwn am weld targedau mwy penodol, camau gweithredu mwy clir ac amserlen gyflwyno benodol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig bellach yn cynnwys targedau penodol a chamau gweithredu mwy clir - nodwyd nifer o'r rhain gan ymgyngoreion ac maent yn datblygu rhai o'r camau gweithredu a nodwyd eisoes.

Rydym wedi rhannu'r camau gweithredu i ddangos y rhai rydym am eu cyflwyno ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun a'r rhai byddwn yn ceisio eu cyflwyno erbyn diwedd y cynllun. Datblygir cynllun gweithredu mwy manwl cyn gynted ag y cymeradwyir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg terfynol gan y gweinidogion. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ynghyd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cafwyd sylw pellach y byddai'r cynigion yn arunigo ac yn gwahaniaethu yn erbyn plant, rhieni a staff yr ysgol cyfrwng Saesneg. Fel y nodwyd eisoes, bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynhwysol ac o ganlyniad byddwn yn gweithio gyda phob un o'n hysgolion - plant, rhieni a staff - i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ac i symud pawb ar hyd y continwwm iaith. Bydd hyn yn cynnwys cyfle i bob aelod o staff, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

**Rhestr o ymatebwyr a gyflwynodd ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori**

3 ysgol
8 unigolyn
Coleg Gŵyr Abertawe
Estyn
Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) Abertawe
Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) Cenedlaethol
Merched y Wawr
Comisiynydd y Gymraeg
Menter Iaith Abertawe
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Mudiad Ysgolion Meithrin
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

# Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith Integredig

**Sicrhewch eich bod yn cyfeirio at y Canllawiau Ffurflen Sgrinio wrth lenwi'r ffurflen hon.**

**O ba faes gwasanaeth a chyfarwyddiaeth ydych chi'n dod?**
Maes Gwasanaeth: Cynllunio ac Adnoddau
Cyfarwyddiaeth: Addysg

**C1 (a) Beth ydych chi'n ei sgrinio am berthnasedd?**

☐ Polisïau, arferion neu weithdrefnau newydd a diwygiedig.
☐ Adolygu, ad-drefnu neu newidiadau gwasanaeth, gostyngiadau, sy'n effeithio ar y gymuned ehangach, defnyddwyr gwasanaethau a/neu staff.
☐ Cynigion neu arbedion effeithlonrwydd.
☐ Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol.
☐ Cynigion prosiectau newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e., gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, newid lleoliad.
☐ Digwyddiadau Cyhoeddus ar Raddfa Fawr.
☐ Gweithredu'r Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol.
☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
☒ Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella).
☐ Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg).
☒ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr.
☒ Penderfyniadau sy'n effeithio ar y gallu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg.

**(b) Enwch a <u>disgrifiwch</u> y fenter yn llawn yma:**

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032**

Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Rhaid i Gyngor Abertawe gyflwyno'r Cynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022 fan bellaf.

Rhaid i'r CSCA gynnwys cynigion yr awdurdod lleol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wella cynllunio darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg, ein targedau ar gyfer gwella cynllunio'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu'r Gymraeg.

Mae gweledigaeth Abertawe ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel a ganlyn:

1. Rhoi cyfle cyfartal i bob dysgwr ddysgu Cymraeg a siarad yr iaith yn hyderus a hyrwyddo buddion dwyieithrwydd.
2. Cynyddu canran y disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, i rhwng 23% a 27% o ddisgyblion Blwyddyn 1 erbyn diwedd y Cynllun, a chymhwyso egwyddorion y cymdogaethau 15 munud i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad i addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
3. Y bydd dysgwyr sydd wedi mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd yn cael eu hannog ac y bydd disgwyliad iddynt barhau â hyn wrth drosglwyddo i gyfnodau allweddol dilynol yn y cyfnod uwchradd.
4. Sicrhau twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill ac sy'n gallu defnyddio eu hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, ffrindiau, cymdogion ac yn y gweithle.
5. Rhoi cyfle ieithyddol cyfartal i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

6. Rhoi cyfle ieithyddol cyfartal i ddysgwyr sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol.
7. Dyheu, trwy'r cynllun hwn, bod Abertawe'n cyfrannu'n sylweddol at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Abertawe yn ystod oes y Cynllun. Dyma'r targed deng mlynedd cyffredinol ar gyfer CSCA 2022-2032.

Mae'r Cyngor yn anelu at gynyddu nifer y disgyblion a'r teuluoedd sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Abertawe yn sylweddol. Ar sail y cynnydd % targed a ragnodir gan Lywodraeth Cymru, a'n rhagolwg o'r boblogaeth disgyblion dros y 10 mlynedd nesaf, bydd angen i ni:

- Cynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o rhwng 200 a 400 o ddisgyblion (yn seiliedig ar ffigurau cyfredol y garfan). O ystyried lleoliad a chyfansoddiad ieithyddol ein hysgolion ar hyn o bryd, mae gennym y strategaethau cyflenwol canlynol i gyflawni'r cynnydd targed mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg:

  → Cynyddu'r cynnig cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg fel rhan o strategaeth farchnata ehangach i hyrwyddo buddion bod yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys o leiaf un Cylch Meithrin sy'n gysylltiedig â phob ysgol gynradd Gymraeg a/neu ardaloedd yn eu dalgylch ac edrych ar gyfleoedd i gynyddu'r cynnig Cymraeg Dechrau'n Deg yn ein lleoliadau presennol.
  → Llenwi'r tua 107 lle cyfrwng Cymraeg ychwanegol Blwyddyn 1 sydd eisoes ar gael yn ein hysgolion trwy galw a mapio'r ddarpariaeth yn y dyfodol sy'n ofynnol yn ystod oes y Strategaeth.
  → Sefydlu ysgol(ion) cyfrwng Cymraeg newydd/cynyddu capasiti mewn ardaloedd lle mae galw mawr a/neu nodi ardaloedd lle mae addysg Gymraeg yn llai hygyrch ar hyn o bryd. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen cynnwys prosiectau mewn rhaglen gyfalaf yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r broses gynllunio, mae'n ofynnol i ni drefnu ein Cynllun o amgylch y canlyniadau isod. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn gyson â meysydd polisi Cymraeg 2050 ac Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol.

- Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall.
- Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
- Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**C2 Beth yw'r effaith bosibl ar y canlynol: gallai'r effeithiau isod fod yn gadarnhaol (+) neu'n negyddol (-)**

| | Effaith Uchel | | Effaith Canolig | | Effaith Isel | | Angen ymchwiliad pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | + | - | + | - | + | - | |
| Plant/pobl ifanc (0-18) | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pobl hŷn (50+) | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Unrhyw grŵp oedran arall | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cenedlaethau'r Dyfodol (eto i'w geni) | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anabledd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Hil (gan gynnwys ffoaduriaid) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Ceiswyr lloches | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Sipsiwn a theithwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Crefydd neu gred/anghredinwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Rhyw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Yr Iaith Gymraeg | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tlodi/allgáu cymdeithasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Cydlyniant cymunedol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

**C3 Pa gyfranogiad sydd wedi digwydd/y byddwch yn ymgymryd ag ef e.e. dulliau ymgysylltu/ymgynghori/cyd-gynhyrchu?**
**Rhowch fanylion isod - naill ai o'ch gweithgareddau neu'ch rhesymau dros beidio â chymryd rhan.**

Wrth ddrafftio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Abertawe rydym wedi gweithio gyda'n grŵp partneriaeth cynrychioliadol; Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PAGA). Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o'r awdurdod lleol, ysgolion, colegau, prifysgolion, Llywodraeth Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Menter Iaith Abertawe ac Yr Urdd.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, cychwynasom ar ymgynghoriad statudol llawn gyda'r holl bartïon â diddordeb.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 27 Medi 2021 a daeth i ben ar 22 Tachwedd 2021.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ochr yn ochr â drafft CSCA 2022-2032 yn www.swansea.gov.uk/wesp/

Cyfanswm yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd 21 ac roeddent fel a ganlyn:

- 3 ymateb ysgol
- 8 ymateb unigol
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Estyn
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) Abertawe
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) Cenedlaethol
- Merched y Wawr
- Comisiynydd y Gymraeg
- Menter Iaith Abertawe

- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

Gofynnwyd naw cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori, un ar ddatganiad gweledigaeth CSCA ac un ar gyfer pob un o'r canlyniadau a restrir yn y cynllun a sylwadau cyffredinol pellach. Defnyddiodd mwyafrif yr ymatebwyr y ffurflen ymateb ar-lein neu ffurflen papur ymateb swyddogol. Anfonwyd rhai ymatebion heb ddefnyddio'r ffurflen.

Nodir trosolwg o'r prif themâu sy'n codi yn y sylwadau a chanlyniadau'r cwestiynau a ofynnir isod.

Roedd nifer o ymatebion o'r farn nad oedd gan y cynllun drafft gamau ac amserlenni wedi'u diffinio'n glir. Mae hyn bellach wedi'i ddiwygio i sicrhau bod gan bob deilliant y camau hyn sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n rhoi gwell syniad o amserlenni.

Mae'r CSCA yn ei hanfod yn nodi cynllun strategol a fydd yn cael ei ategu gan gynlluniau gweithredu priodol i droi'r weledigaeth yn realiti. Mae angen i'r cynllun strategol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig fod yn ddogfennau 'byw' a fydd yn cael eu hadolygu fel y bo'n briodol trwy gydol y blynyddoedd i ddod. Yn ôl eu natur, dim ond ar ôl cwblhau a chymeradwyo'r cynllun strategol hwn yn ffurfiol y gellir datblygu'r cynlluniau gweithredu yn llawn.

Mae setiau data allweddol bellach wedi'u hychwanegu at bob Deilliant i osod yr olygfa a, lle bo angen, gosod targedau clir.

Awgrymwyd nifer o gamau ychwanegol, ac yna ychwanegwyd nifer o'r rhain at y CSCA terfynol.

Yn ychwanegol at ymatebion yr ymgynghoriad gwnaethom adolygu Cynlluniau drafft nifer o awdurdodau lleol eraill a dysgu o'u profiadau a'u cynigion.

Wrth greu fersiwn derfynol o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032, ystyriwyd holl ymatebion yr ymgynghoriad yn eu cyfanrwydd a chânt eu rhannu ag Aelodau'r Cabinet.

Yn yr hyn sy'n parhau i fod yn gyfnod heriol i bob ysgol ni dderbyniwyd ymatebion penodol gan Gynghorau ysgol, ond ein bwriad yw cynnwys Plant a Phobl Ifanc yn llawn wrth roi'r Cynllun 10 mlynedd ar waith ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu grŵp cynrychioli disgyblion i helpu i lunio ac arwain y cynllunio gweithredu ar gyfer cyflawni'r Cynllun.

**C4 A ydych wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth ddatblygu'r fenter hon:**

**a) Yn gyffredinol, a yw'r fenter yn cefnogi Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol wrth gael eu hystyried gyda'i gilydd?**
**Ydy** ☒ **Nac ydy** ☐

**b) A yw'r fenter yn ystyried sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?**
**Ydy** ☒ **Nad ydy** ☐

**c) A yw'r fenter yn cymhwyso pob un o'r pum ffordd o weithio?**
**Ydy** ☒ **Nac ydy** ☐

**ch) A yw'r fenter yn diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i**

**ddiwallu eu hanghenion eu hunain?**

**Ydy** ☒ **Nac ydy** ☐

**C5 Beth yw risg bosibl y fenter? (*Ystyriwch yr effeithiau canlynol - cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol, cyfreithiol, ariannol, gwleidyddol, cyfryngau, canfyddiad y cyhoedd ac ati ...*)**

| Risg Uchel | Risg Canolig | Risg Isel |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ |

**C6 A fydd y fenter hon yn cael effaith (waeth pa mor fach) ar unrhyw wasanaeth arall gan y Cyngor?**

☒ **Bydd** ☐ **Na fydd Os 'Bydd', rhowch y manylion isod**

Wrth i Abertawe ddatblygu ei Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 nesaf byddwn yn gweithio ar draws y Cyngor a thu hwnt i sicrhau bod y CSCA yn cael ei gefnogi a'i gryfhau gan benderfyniadau a chyfleoedd trwy gydol oes y Strategaeth.

**C7 Beth yw effaith gronnus y cynnig hwn ar bobl a/neu gymunedau wrth ystyried yr holl effeithiau a nodwyd yn y sgrinio ac unrhyw benderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar grwpiau/defnyddwyr gwasanaethau tebyg a wneir gan y sefydliad?** *(Efallai y bydd angen i chi drafod hyn gyda'ch Pennaeth Gwasanaeth neu Aelod Cabinet i ystyried yn ehangach a fydd y cynnig hwn yn effeithio'n fwy niweidiol ar rai grwpiau/cymunedau oherwydd penderfyniadau eraill y mae'r sefydliad yn eu gwneud. Er enghraifft, effaith ariannol/tlodi, tynnu gwasanaethau lluosog yn ôl ac a yw hyn o dan anfantais i'r un grwpiau, e.e., pobl anabl, pobl hŷn, rhieni sengl (sy'n fenywod yn bennaf), ac ati).*

Bydd y Cynllun, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, yn cael effaith gadarnhaol ar bob disgybl ac ysgol yn Abertawe nid yn unig wrth geisio cynyddu nifer y disgyblion a theuluoedd sy'n dewis addysg Gymraeg ond hefyd ar daith iaith pob disgybl yn ein holl ysgolion fel y dônt yn ddinasyddion dwyieithog.

**Canlyniad Sgrinio**

**C8 Disgrifiwch ganlyniad eich sgrinio isod:**

- **Crynodeb o'r effeithiau a nodwyd a'r lliniaru sydd eu hangen (C2)**
- **Crynodeb o'r cyfranogiad (C3)**
- **Ystyriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (C4)**
- **Unrhyw risgiau a nodwyd (C5)**
- **Effaith gronnus (C7)**

Bydd y Cynllun hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac ar holl ddinasyddion Abertawe wrth i'r buddion o fod yn ddinasyddion dwyieithog/amlieithog gael eu gwireddu.

Cynhwysir pob ysgol er mwyn sicrhau bod y buddion yn cael eu gwireddu ar draws ein holl ysgolion. Mae'r holl argymhellion yn cyd-fynd â disgwyliadau ac ystyriaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol heb unrhyw risg wrth eu gweithredu. Ystyrir yr effaith gronnus yn gadarnhaol iawn.

Unwaith y bydd y Cynllun terfynol wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, ac wedi hynny y Gweinidog, cwblheir IIA llawn i gefnogi ein cynllun gweithredu blynyddol i sicrhau bod effaith

pob gweithred yn cael ei hasesu'n llawn a bod y CSCA yn cael effaith gadarnhaol ar BOB plentyn a phobl ifanc yn Abertawe.

(DS: Dylid defnyddio'r paragraff cryno hwn yn adran berthnasol yr adroddiad corfforaethol).

☐ **IIA llawn i gael ei gwblhau**

☒ **Peidiwch â chwblhau IIA - gwnewch yn siŵr eich bod wedi darparu'r wybodaeth berthnasol uchod i gefnogi'r canlyniad hwn.**

DS: E-bostiwch y ffurflen wedi'i chwblhau at y Tîm Mynediad i Wasanaethau i gael cytundeb cyn cael cymeradwyaeth gan eich Pennaeth Gwasanaeth. Dim ond trwy e-bost y mae angen cymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaeth.

| **Sgrinio wedi'i gwblhau gan:** |
| --- |
| **Enw: Rhodri Jones** |
| **Teitl y swydd: Pennaeth y Tîm Perfformiad** |
| **Dyddiad: 18/08/2021 diwygiwyd ar 14/12/2021** |

| **Cymeradwyaeth gan y Pennaeth Gwasanaeth:** |
| --- |
| **Enw: Brian Roles** |
| **Swydd: Pennaeth Addysg, Cynllunio ac Adnoddau** |
| **Dyddiad: 18/08/2021** |

**Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i: accesstoservices@swansea.gov.uk**